TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES



# Adroddiad Blynyddol

2025/26

# Cynnwys

## 1. Adroddiad strategol

| | |
|---|---|
| Cipolwg | 3 |
| Datganiad y cadeirydd | 4 |
| Datganiad y Prif Swyddog Gweithredol | 5 |
| Ein strwythur a mesur ein perfformiad | 7 |
| Rhwydwaith T | 8 |
| Amcanion Llesiant | 9 |
| Prif Swyddog Cyllid, Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu | 10 |
| Galluogi pobl a chymunedau | 16 |
| Bod o fudd i'r amgylchedd | 25 |
| Cefnogi ardaloedd lleol a'r economi | 28 |
| Dyrchafu'r Gymraeg a diwylliant Cymru | 35 |
| Gwobr person y flwyddyn | 36 |
| Risg | 39 |
| Datganiad adran 172 | 41 |
| Datganiad Gwybodaeth Anariannol a Chynaliadwyedd (NFSI) | 46 |

## 2. Llywodraethu

| | |
|---|---|
| Datganiad llywodraethu corfforaethol | 56 |
| Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg 2025/26 | 61 |
| Adroddiad taliadau | 64 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 68 |

## 3. Datganiadau ariannol

| | |
|---|---|
| Datganiadau ariannol | 72 |
| Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol | 79 |
| Datganiad cyfunol am newidiadau mewn ecwiti | 81 |
| Datganiad cyfun o lifoedd arian | 82 |
| Datganiad y cwmni o sefyllfa ariannol | 83 |
| Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti | 84 |
| Nodiadau | 85 |

# CIPOLWG

Boddhad cwsmeriaid
87.7%

i fyny 3.3 pwynt canran ers y llynedd

71.2g
o allyriadau carbon deuocsid

fesul cilomedr teithwyr, i lawr o 80.5g yn 2024/25

5.2%
o gynnydd yn nifer y teithwyr o'i gymharu â'r llynedd

ar wasanaethau TrawsCymru rydyn ni'n eu rheoli

8.9%
o gynnydd yn refeniw rheilffyrdd o'i gymharu â'r llynedd

Mae ein refeniw rheilffyrdd wedi cynyddu'n gyson ers 2022/23. Eleni, roedd yn £190.3 miliwn

92.6%
o drenau wedi rhedeg ar amser

ar Linellau Craidd y Cymoedd i dri munud, i fyny o 85.7% yn 2024/25

170km
o drydaneiddio wedi'i gwblhau

o Linellau Craidd y Cymoedd

34.9 miliwn
o deithiau teithwyr rheilffyrdd

Mae nifer y teithwyr yn cynyddu ar ein trenau

3.94 miliwn

o deithiau trên talu wrth fynd yn 2025/26

Vernon Everitt

# DATGANIAD Y CADEIRYDD



Nid yw trafnidiaeth yn nod ynddo'i hun. Mae'n ymwneud â chyflawni ar gyfer y bobl, y cymunedau a'r busnesau rydyn ni'n eu gwasanaethu. I Trafnidiaeth Cymru, mae hon wedi bod yn flwyddyn o welliannau cyson a pharhaus mewn trafnidiaeth a pharatoi ar gyfer rhagor o gynnydd a fydd o fudd i bobl ym mhob rhan o Gymru am genedlaethau i ddod.

Roedd nifer y teithwyr a refeniw o'r gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau rydyn ni'n eu rheoli wedi parhau i gynyddu, fel sydd wedi bod bob blwyddyn ers 2022. Mae prydlondeb Llinellau Craidd y Cymoedd ymysg y gweithredwyr trenau gorau yn y DU erbyn hyn. Mae agor Depo Walnut Tree yn Ffynnon Taf a chwblhau'r gwaith o drydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd yn dangos gallu TrC i gyflawni prosiectau seilwaith mawr a thrawsnewidiol ar yr un pryd â mynd i'r afael â'r heriau a gafodd eu creu gan y pandemig a chwyddiant prisiau.

Byddwn yn gweithio'n galed i barhau â'r gyfradd gynnydd hon yn y cyfnod sydd o'n blaenau ni. Mae teithiau bws yn cyfrif am ddwy ran o dair o'r holl deithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus. Cyn bo hir byddwn yn dechrau masnachfreinio gwasanaethau bysiau Cymru ochr yn ochr â'n gwasanaethau rheilffyrdd presennol er mwyn cydgysylltu trafnidiaeth yn well, cyflwyno taliadau tap ymlaen, tap ymadael mwy cyfleus a gwella gwybodaeth i gwsmeriaid.

Byddwn yn bwrw ymlaen i gwblhau'r prosiectau allweddol yng Ngogledd Cymru a bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflawni nifer o welliannau rheilffyrdd yn Ne Cymru.

Er mwyn deall yn well y materion sy'n wynebu cymunedau amrywiol Cymru, rydyn ni wedi cynnal cyfarfodydd Bwrdd mewn gwahanol leoliadau ledled y wlad. Mae hyn wedi tynnu sylw at anghenion pobl mewn ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol ac wedi pwysleisio'r ffaith bod angen gwneud mwy i wella diogelwch menywod a merched. Er mwyn gwireddu potensial llawn trafnidiaeth fel cyfrwng sy'n galluogi bywydau gwell, rhaid iddi fod yn hygyrch i bawb. Byddwn yn adeiladu ar y cyfleusterau mynediad gwastad ar ein trenau newydd i sicrhau gwelliannau parhaus i gwsmeriaid anabl.

Mae diogelwch ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr yn parhau i fod yn hollbwysig. Mae'n hanfodol ein bod yn dysgu gwersi o'r gwrthdrawiad trasig yn Nhalerddig . Mae'r Bwrdd wedi ystyried argymhellion y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd i TrC, ac ynghyd â'r Tîm Arwain Gweithredol, byddwn yn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llawn. Rwy'n dal i feddwl am bawb y mae'r gwrthdrawiad wedi effeithio arnynt ac yn cydymdeimlo â nhw.

Hoffwn ddiolch i'n cwsmeriaid am eu hamynedd wrth i ni weithio i wella trafnidiaeth yn barhaus ac am ein defnyddio mewn niferoedd cynyddol. Hoffwn ddiolch hefyd i bobl Trafnidiaeth Cymru a'r undebau llafur am eu gwaith caled, am y balchder a'r caredigrwydd maen nhw'n eu dangos ac am bob amser geisio gweld beth allwn ni ei wneud yn well.

Hoffwn ddiolch hefyd i Fwrdd TrC ac i James Price, y Prif Swyddog Gweithredol a'i Dîm Arwain Gweithredol. Rydyn ni i gyd yn sylweddoli ei bod yn fraint gwneud y gwaith a wnawn a byddwn yn parhau i weithio'n galed i ddarparu gwell trafnidiaeth i Gymru.

James Price

# DATGANIAD Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL



Mae hon wedi bod yn flwyddyn bwysig i Trafnidiaeth Cymru. Fel y mae'r adroddiad hwn yn ei nodi, rydyn ni wedi goresgyn heriau sylweddol ac wedi sicrhau gwelliannau mawr i'r bobl, y cymunedau a'r busnesau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Mae nifer ein teithwyr ar drenau wedi codi 9.9% ers y llynedd ac mae nifer y teithwyr ar fysiau ar wasanaethau rydyn ni'n eu rheoli wedi cynyddu dros 5%.

Dyma'r degfed flwyddyn ers sefydlu Trafnidiaeth Cymru, gan roi cyfle i mi fyfyrio ar y daith rydyn ni wedi bod arni hyd yma. Mae'r holl bethau rydyn ni wedi'u cyflawni wedi dibynnu ar y bobl dalentog sydd gennym yn Trafnidiaeth Cymru ac ar weithio'n effeithiol gyda'n partneriaid. Hoffwn ddiolch o galon i dîm TrC am bopeth maen nhw wedi'i wneud ac yn parhau i'w wneud, drwy'r dydd bob dydd.

Mewn llai na deng mlynedd, mae Trafnidiaeth Cymru wedi datblygu o fod yn syniad ar fwrdd gwyn i fod yn gwmni trafnidiaeth cyflawn. Rydyn ni bellach yn cyflogi dros 4,500 o bobl, yn rhedeg masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, wedi trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ac yn gweithredu bysiau TrawsCymru a fflecsi.

Pan fydd pobl yn fy stopio yn y stryd, maen nhw bellach yn llawer mwy tebygol o siarad am y trenau newydd maen nhw wedi teithio arnyn nhw na rhannu eu rhwystredigaethau am oedi neu orlenwi. Erbyn hyn, ni yw'r gweithredwr sydd wedi gwella fwyaf yn y DU o ran prydlondeb o un chwarter blwyddyn i'r llall, yn ôl ystadegau'r Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd.

Rydyn ni hefyd wedi gwella ein boddhad cwsmeriaid yn gyson ac mae'r cwynion yn dal yn isel. Fyddwn ni ddim yn gorffwys ar ein rhwyfau ac yn hytrach byddwn yn ceisio gwella ein gwasanaethau'n barhaus.

Rydyn ni wedi arloesi i gyflawni newid sylweddol yn gyflym iawn, ond rydyn ni'n gwybod bod llawer mwy i'w wneud. Roedd agor Depo Walnut Tree yn swyddogol a chwblhau'r gwaith trydaneiddio ar Linellau Craidd y Cymoedd eleni yn llwyddiannau mawr ochr yn ochr â gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid. Mae'r rhain i gyd yn arwyddion bod pethau'n symud i'r cyfeiriad iawn.

Mae masnachfreinio bysiau yn rhan hanfodol o'n gwaith o adeiladu'r Rhwydwaith T. Mae Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 bellach wedi dod yn gyfraith. Dyma garreg filltir allweddol eleni. Mae addewid syml wrth galon masnachfreinio bysiau: gwasanaeth dibynadwy y gall pobl ymddiried ynddo, wedi'i gynllunio mewn ffordd strategol ac integredig. Rydyn ni'n llawn sylweddoli maint y newid y mae masnachfreinio'n ei gynrychioli, ond mae gennym y bobl iawn ar waith i'w gyflawni. Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, bydd angen ymdrech ar y cyd ein partneriaid mewn llywodraeth leol, gweithredwyr bysiau, undebau llafur, grwpiau cymunedol a'n teithwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ein pobl a'u hymrwymiad i fod yn un tîm. Mae pawb yn chwarae eu rhan – y cydweithwyr sy'n gwirio tocynnau neu sy'n glanhau ein trenau, a'r rheini sy'n ateb ymholiadau cwsmeriaid neu'n llunio amserlenni.

Hebddyn nhw, ni fyddai dim o'r gwaith hwn wedi digwydd ac ni fydden ni yn y sefyllfa rydyn ni ynddi ar hyn o bryd. Hoffwn ddiolch i'r undebau llafur am eu cefnogaeth i'n cydweithwyr ac am gynrychioli eu buddiannau.

Mae angen i ni sicrhau bod ein cydweithwyr yn cael profiad gwerth chweil a mynediad teg at gyfleoedd i ddatblygu. Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 20% a mwy – mae angen i ni fod yn fwy radical wrth weithio i'w gau. Rwyf wedi ymrwymo i wreiddio'r cynllun gwrth-hiliaeth a chynyddu hygyrchedd yn ein sefydliad. Rydyn ni eisiau dod yn hoff ffordd o deithio Cymru, ond rydyn ni'n cydnabod arwyddocâd y datganiad hwn a pha mor bell rydyn ni'n dal i orfod mynd i gyflawni hyn. I gyflawni hyn, byddwn yn croesawu technoleg newydd ac yn gwella sut rydyn ni'n defnyddio data a gwybodaeth i wella gwasanaethau i'n cwsmeriaid a'n cydweithwyr.

Mae llawer o risgiau a chyfleoedd. Mae gennym fwy o gyfle nag erioed i gefnogi newid drwy weithio rhanbarthol, gwell defnydd o gynllunio tir strategol a chyfrannu at feysydd polisi ehangach ar draws y llywodraeth. Rydyn ni bob amser yn ceisio gwella diogelwch ac, wrth weithio ochr yn ochr ag eraill yn y diwydiant, rydyn ni'n dysgu gwersi ar y cyd, gan gynnwys gwersi o'r gwrthdrawiad trasig yn Nhalerddig.

Diolch i'r Bwrdd, sy'n parhau i gynnig cipolwg gwerthfawr a her adeiladol. Hoffwn ddiolch i'r aelodau hynny o'r bwrdd sy'n ymddeol am eu cyfraniadau ac i'r aelodau newydd sydd wedi cyflwyno safbwyntiau newydd. Hoffwn ddiolch i Vernon Everitt, ein cadeirydd, am ei arweiniad strategol, ei ymyriadau ystyriol ac am rannu ei brofiad helaeth. Yn olaf, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth a gobeithio eu bod bellach yn dechrau gweld manteision ein gwaith caled.



# EIN STRWYTHUR A MESUR EIN PERFFORMIAD

## Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Rydyn ni'n fudiad nid-er-elw. Mae gennym bedwar is-gwmni gweithredol: Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig, Pullman Rail Limited a TrC Ffeibr Cyfyngedig.

Fel corff sy'n cael arian cyhoeddus, rydyn ni wedi ymrwymo i ddangos ein bod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd rydyn ni'n rhedeg ein busnes. I fesur ein cynnydd, rydyn ni'n defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol. Mae 14 o'r rhain wedi'u cyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Mae'r 20 mesur llawn ar gael ar ein gwefan, ac mae'r canlyniadau'n cael eu diweddaru bob chwarter a bob blwyddyn. Mae'r rhain yn dangos ein cynnydd o ran cyflawni'r cylch gwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

### Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

Cwmni dan berchnogaeth lwyr Trafnidiaeth Cymru.

### Pullman Rail Limited

Cwmni dan berchnogaeth lwyr Trafnidiaeth Cymru.

### Gwasanaethau Arloesi TrC

Menter ar y cyd rhwng Trafnidiaeth Cymru a Keolis ac Amey.

### TrC Ffeibr Cyfyngedig

Cwmni dan berchnogaeth lwyr Trafnidiaeth Cymru.

# RHWYDWAITH T

## Rydyn ni'n adeiladu'r Rhwydwaith T. Dyma'r rhwydwaith trafnidiaeth integredig, aml-ddull, sy'n rhoi'r cwsmer yn gyntaf yng Nghymru a'r gororau. Gyda'r Rhwydwaith T, mae ein tîm yn gwneud teithio'n haws, yn symlach ac yn well i'r bobl, y cymunedau a'r busnesau rydyn ni'n eu gwasanaethu.

Rydyn ni'n cyflogi 4,500 o bobl ledled Cymru a'r gororau. Rydyn ni'n meithrin diwylliant sydd wedi'i wreiddio mewn cynhwysiant, twf a dysgu. Dylai ein pobl bob amser ffynnu a chyfrannu at weithle sy'n cael ei arwain gan bwrpas.

### GWELEDIGAETH

- Hoff ffordd o deithio pobl Cymru

### CENHADAETH

- Un Rhwydwaith
- Un Amserlen
- Un Tocyn
- Un Tîm

### DIBEN

- Rydyn ni'n helpu pobl i deithio mewn ffyrdd sy'n dda i'r blaned, yn dda i'r boced ac yn dda i fywyd go iawn

### GWERTHOEDD

- Rydyn ni'n gwneud y peth iawn
- Rydyn ni'n herio ein hunain
- Rydyn ni'n un tîm

# AMCANION LLESIANT


LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF FUTURE GENERATIONS

## Ym mis Mehefin 2024, daeth TrC yn gorff sydd wedi'i enwi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae bod yn gorff a enwir yn gosod dyletswydd newydd i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant, sydd wedi'u cynllunio i gynyddu ein cyfraniadau at y nodau llesiant.

Rydyn ni wedi nodi pedwar amcan llesiant i'n harwain i lunio Cymru well:

1. **Galluogi pobl a chymunedau**
2. **Bod o fudd i'r amgylchedd**
3. **Cefnogi ardaloedd lleol a'r economi**
4. **Dyrchafu'r Gymraeg a diwylliant Cymru**



**Mae'r amcanion hyn yn rhan o bwy ydym ni. Maen nhw'n siapio ein penderfyniadau, ein gweithrediadau a'n diwylliant.**

Heather Clash

# PRIF SWYDDOG CYLLID, GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A LLYWODRAETHU



**Rwyf yn falch o adrodd bod refeniw a nifer y teithwyr wedi cynyddu eto eleni. Mae hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i barhau i wella trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.**

Y llynedd, dywedais fod yn rhaid inni wella boddhad ein cwsmeriaid er mwyn cynyddu ein cyfran o'r farchnad. Mae ein sgôr bellach wedi cyrraedd 87.7%, 3.3 pwynt canran o gynnydd. Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, rhaid i ni barhau i ganolbwyntio ar gryfhau ein gwasanaethau, gwella profiad cwsmeriaid a chynyddu ein heffeithlonrwydd.

Mae angen i ni sicrhau bod pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn cael gwerth am arian. Drwy dalu wrth fynd, rydyn ni'n sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu teithio'n rhatach ac yn haws ar y trên yn Ne Ddwyrain Cymru – dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn ei ehangu i Ogledd Ddwyrain Cymru.

Rydyn ni'n parhau i ddatblygu prosiectau seilwaith. Cytunwyd ar gyllid i wella gorsaf Caerdydd Canolog. Bydd prosiectau o'r fath yn cael effaith gadarnhaol wirioneddol ar ein cwsmeriaid ac mae'n bwysig, ochr yn ochr â'n partneriaid, ein bod yn darparu gwerth am arian. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr hinsawdd economaidd bresennol gydag effaith gwrthdaro rhyngwladol ar gostau seilwaith. Byddwn yn defnyddio ein profiad helaeth o brosiectau seilwaith blaenorol.

Rydyn ni wedi bod yn datblygu sgiliau ein cydweithwyr. Mae trosiant cydweithwyr yn dal yn isel. Bydd cadw pobl a thimau talentog fel hyn yn caniatáu hyblygrwydd ac ymatebolrwydd i heriau yn y dyfodol. Mae lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau a mwy o recriwtio o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn dal yn bwysig i'n dull gweithredu. Drwy gael y bobl iawn yn y lle iawn gallwn sicrhau llwyddiant yn y dyfodol.

Rydyn ni'n parhau i ddysgu a gwneud cynnydd. Rydyn ni'n adeiladu ein dulliau sy'n seiliedig ar ddata, gan ddatblygu ar ein profiad ymarferol a chanolbwyntio ar wneud gwahaniaeth. Dyma sut byddwn ni'n adeiladu'r rhwydwaith T, gan sicrhau teithio gwell a mwy cyfleus i bobl ledled Cymru.

# Perfformiad dros y flwyddyn

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau Grŵp TrC ar gyfer y flwyddyn. Rhennir y gwariant yn ôl y math o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Roedd ein gwariant yn unol â'r cyllid cylch gwaith a gwariant awdurdodedig arall, a oedd yn amrywio yn ystod y flwyddyn.

Mesurir ein perfformiad ariannol gan ddefnyddio Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) fel y'i diffinnir gan Drysorlys EF, sy'n wahanol i refeniw Llywodraeth Cymru a nodir yn Nodyn 2 i'r Datganiadau Ariannol, gan fod y polisïau cyfrifyddu ar gyfer grantiau cyfalaf a chyllid les yn amrywio o driniaeth Gyllidebol y Llywodraeth Ganolog. Mae hyn hefyd yn seiliedig ar gyllideb cyfrifyddu llywodraeth ganolog, sy'n eithrio Pullman Rail Limited a TrC Ffeibr Cyfyngedig gan eu bod yn cael eu dosbarthu fel corfforaethau cyhoeddus hyd braich.

**Tabl 1:** Alldro o'i gymharu â chyllid 2025/26.

| Gwariant | Cyllid gan Lywodraeth Cymru (cylch gwaith ac ychwanegol) | Cyfanswm gwariant | Llai refeniw allanol | Cyfanswm yr alldro a ariennir gan Lywodraeth Cymru |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Terfyn Gwariant Adrannol Refeniw | £426m | £682m | (£260m) | £422m |
| Terfyn Gwariant Adrannol Cyfalaf | £383m | £380m | – | £380m |
| **Cyfanswm** | **£809m** | **£1,062m** | **(£260m)** | **£802m** |

Mae alldro Llywodraeth Cymru'n cynnwys yr elfennau canlynol:

**Tabl 2:** Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Alldro.

| Gwariant | Cyllid grant gwasanaethau trên | Grantiau bysiau a theithio llesol i awdurdodau leol a gweithredwyr bysiau | Cyllid grant cylch gwaith arall Llywodraeth Cymru | Cyfanswm yr alldro a ariennir gan Lywodraeth Cymru |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Refeniw | £341m | £7m | £74m | £422m |
| Cyfalaf | £62m | £42m | £276m | £380m |
| **Cyfanswm** | **£403m** | **£49m** | **£350m** | **£802m** |

Mae'r cyllid grant gwasanaethau rheilffyrdd a dderbyniwyd yn ymwneud â thaliadau a wneir o dan y cytundeb grant i weithredu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, sy'n cael ei gweinyddu gan TrC ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae perfformiad y fasnachfraint rheilffyrdd isod. Mae refeniw rheilffyrdd wedi cynyddu 8.9% a nifer y teithiau teithwyr wedi cynyddu 9.9% ers y llynedd. Gwelodd rhwydwaith Cymru a'r Gororau y lefelau uchaf erioed o refeniw. Mae eleni wedi ein rhoi mewn sefyllfa dda i barhau i gynyddu refeniw rheilffyrdd yng Nghymru a'r gororau a chyrraedd y targed uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

**Tabl 3:** Perfformiad masnachfraint rheilffyrdd 2025/26.

| Disgrifiad | £m |
|---|---|
| **Cyfanswm refeniw teithwyr a refeniw arall nad yw'n ymwneud â Llywodraeth Cymru** | **222.3** |
| Costau staff | (269.7) |
| Costau cerbydau | (131.7) |
| Taliadau perfformiad (net incwm gan Network Rail a chwmnïau trenau eraill am darfu ar wasanaethau) | (2.5) |
| Taliadau seilwaith | (86.8) |
| Costau gweithredu eraill* | (57.1) |
| **Cyfanswm gwariant gweithredu** | **(547.8)** |
| Llog les IFRS16 a chostau cyllid eraill | (15.3) |
| Cyfraniadau at y diffyg yn y pensiwn | – |
| **Cymhorthdal refeniw Llywodraeth Cymru sydd ei angen (ar ôl IFRS16)** | **(340.8)** |

**Mae'r costau gweithredu eraill yn ymwneud yn bennaf â mesurau diogelwch, prosiectau TG a digidol, ymgyrchoedd marchnata a hysbysebu, cynlluniau yswiriant a diwydiant.*

# Ein datganiadau ariannol

Mae'r datganiad incwm cyfunol yn dangos colled o £17 miliwn ar gyfer y flwyddyn (2024/25: £32 miliwn).

Mae'r golled gyfrifyddu hon yn cael ei chynhyrchu oherwydd bod TrC yn defnyddio polisi ailbrisio ar gyfer ei asedau rhwydwaith rheilffyrdd, sy'n golygu bod y dibrisiant blynyddol o £72 miliwn (2024/25: £64 miliwn) ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd yn sylweddol uwch na'r cyllid grant cysylltiedig sy'n cael ei amorteiddio drwy'r datganiad incwm o £53 miliwn (2024/25: £37 miliwn).

Felly, bydd hyn yn arwain at golled flynyddol barhaus yn y datganiad incwm yn unig. Caiff y golled hon ei gwrthbwyso drwy drosglwyddiad yn y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti o'r gronfa ailbrisio i warged wrth gefn o £19 miliwn (2024/25: £27 miliwn).

Mae'r gwarged/(colled) wrth gefn ar ôl yr addasiadau hyn wedi'u nodi isod:

**Tabl 4:** Gwarged wrth gefn sylfaenol.

| Disgrifiad | 2025/26 £m | 2024/25 £m |
|---|---|---|
| Gwarged/(colled) cyn trosglwyddo cronfeydd wrth gefn | (£16.8) | (£32.3) |
| Trosglwyddo arian wrth gefn | £19.5 | £26.5 |
| Symudiadau eraill mewn incwm cynhwysfawr | £1.0 | £0.2 |
| Gwarged/(colledion) wrth gefn ar gyfer y flwyddyn | £3.7 | (£5.5) |

Gan nad yw TrC a Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn gwneud elw, mae'r gwarged wrth gefn yn cynnwys y canlynol yn bennaf:

- gwahaniaethau amseru rhwng costau ac incwm ynglŷn â lesoedd a phensiynau.
- perfformiad ein his-gwmnïau masnachu hyd braich Pullman Rail Limited a TrC Ffeibr.
- elfen tir y cyllid grant ar gyfer caffael eiddo, yn bennaf ar gyfer Prosiect Metro De Cymru a masnachfreinio bysiau yn y dyfodol, sy'n cael ei gydnabod fel incwm llawn yn y flwyddyn gaffael.

Roedd cyfanswm y treuliau ar gyfer y flwyddyn yn £877 miliwn (2024/25: £827 miliwn). Mae'r twf hwn yn parhau i gael ei sbarduno gan gynnydd mewn staff (sy'n adlewyrchu'r cynnydd yn ein gwasanaethau a'n cyfrifoldebau), dibrisiant a chostau eraill sy'n gysylltiedig â cherbydau rheilffyrdd newydd a mwy o wasanaethau trên, ochr yn ochr â chostau cynnal a chadw a dibrisiant uwch sy'n deillio o welliannau i rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd.

Fe wnaethom hefyd hwyluso taliadau grant uniongyrchol o £42 miliwn o daliadau grant teithio llesol i awdurdodau lleol ac £8 miliwn o daliadau cyllid bysiau TrawsCymru i awdurdodau lleol a gweithredwyr bysiau (2024/25: £47 miliwn a £5 miliwn). Er bod y taliadau grant hyn wedi'u cynnwys yn ein cylch gwaith a'n hadroddiadau alldro ar dudalen 11, nid yw'r cyllid na'r taliadau'n cael eu dangos fel incwm a chostau yn Natganiad o Incwm Cyfunol TrC ar dudalen 78. Y rheswm am hyn yw bod TrC ar hyn o bryd yn gweithredu fel asiant gweinyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyllid hwn, nid rhoddwr y grant. O 2026/27 ymlaen, bydd y cyllid grant Teithio Llesol hwn yn rhan o'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol na fydd yn cael ei gweinyddu gan TrC.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr asedau cyfalaf sydd gennym yn werth £4.5 biliwn (2024/25: £4.1 biliwn). Cawsom £330 miliwn o ychwanegiadau cyfalaf yn ystod y flwyddyn (2024/25: £430 miliwn). Yn ogystal, cawsom £30 miliwn o wariant cyfalaf wedi'i ariannu gan grant (2024/25: £23 miliwn) ynglŷn â gwariant sy'n gymwys i gael cyllid grant cyfalaf ond nad yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ar ein mantolen. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y treuliau gweinyddol yn y datganiad incwm.

Rydym yn asesu gwerth rhwydwaith trên Llinellau Craidd y Cymoedd drwy broses brisio, sydd wedi'i nodi yn nodyn 8 y cyfrifon. Mae'r prisiad yn seiliedig ar gost amnewid dibrisiedig cyfwerth modern. Y gwerth ym mis Mawrth 2026 yw £3.4 biliwn. Mae'r gwerth yn parhau i gynyddu o un flwyddyn i'r llall wrth i elfennau o'n datblygiad ar Fetro De Cymru gael eu cwblhau a dechrau cael eu defnyddio. Cafodd £440 miliwn ei ddefnyddio eleni, gyda balans sy'n weddill o £240 miliwn mewn asedau sy'n cael eu hadeiladu i'w gwblhau yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

Er bod y rhan fwyaf o'n hasedau eiddo, offer a chyfarpar yn gysylltiedig â seilwaith rheilffyrdd, rydyn ni hefyd yn dal £730 miliwn o asedau cyfalaf mewnol eraill.

Mae'r rhan fwyaf o'r balans hwn yn ymwneud â cherbydau sy'n cael eu prydlesu (asedau hawl i ddefnyddio a gwariant y gellir ei briodoli). Mae'r asedau eraill sydd gennym yn cynnwys eiddo a berchnogir ac a brydlesir, a gwelliannau, offer a pheiriannau, offer TG a meddalwedd cysylltiedig.

Mae gennym £411 miliwn o asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ym mis Mawrth 2026, sy'n cynnwys gweddill y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Metro De Cymru nad ydynt wedi dechrau cael eu defnyddio eto, a chostau cyfalaf o ran cyflwyno fflyd newydd.

Mae gennym £216 miliwn o asedau cyfredol, symiau masnach derbyniadwy yn bennaf a £251 miliwn o rwymedigaethau cyfredol, symiau taladwy cronedig yn bennaf. Mae'r symiau taladwy drwy fasnach a anfonebir yn gymharol isel (£24 miliwn) gan ein bod yn ceisio talu'r holl gyflenwyr yn brydlon.

Mae gennym rwymedigaethau anghyfredol o £2.8 biliwn. Mae'r rhan fwyaf o'r balans hwn yn gyllid grant cyfalaf gohiriedig, sy'n cael ei ryddhau dros oes economaidd ddefnyddiol asedau'r cyfalaf cysylltiedig. Mae balans rhwymedigaethau les hefyd sy'n ymwneud yn bennaf â lesoedd ar gyfer ein fflyd cerbydau.

## Edrych tua'r dyfodol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr cylch gwaith i TrC yn 2023 ac mae'n darparu llythyr cyllid blynyddol ar wahân ar gyfer y gyllideb a ddyrannwyd i gyflawni gweithgareddau penodol y flwyddyn ariannol honno. Mae TrC yn cael ei ddal yn atebol am gyflawni gweithgareddau o'r cynllun busnes ac rydyn ni'n olrhain perfformiad drwy fesurau fel dangosyddion perfformiad allweddol, a gyhoeddir bedair gwaith y flwyddyn a pherfformiad rheilffyrdd bob pedair wythnos. Mae hyn yn ein galluogi i fod yn dryloyw a chael ein dal yn atebol am wario arian cyhoeddus.

Mae'r mesurau hyn yn arwain ein buddsoddiad, yn helpu i wella gwasanaethau, yn dangos arbedion effeithlonrwydd posibl ac yn sbarduno mwy o refeniw dros y blynyddoedd nesaf.

Yn anad dim, mae arnom eisiau parhau i gynnal lefel uchel o fodlonrwydd ymysg cwsmeriaid, cynyddu refeniw a sicrhau gwerth am arian o ran cymhorthdal cyhoeddus i deithwyr. Wrth gynhyrchu mwy o refeniw, byddwn yn dibynnu llai ar y cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru.

## REFENIW: £422M

£422M

**£361M**
O wasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd a chyfnewidfeydd trafnidiaeth

**£4M**
O wasanaethau sy'n cael eu hariannu gan refeniw bysiau, ffyrdd aml-foddol

**£49M**
O wariant arall sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd
Gan gynnwys costau perchennog seilwaith a gwaith cyn cyfalaf ar wella gorsafoedd

**£8M**
O grantiau i gefnogi gwasanaethau bysiau

## CYFALAF: £380M

£380M

**£119M**
O fuddsoddiad ar gyfer gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd
Gan gynnwys cerbydau newydd, a gwella depos a gorsafoedd

**£138M**
O waith dylunio ac adeiladu ar asedau rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd

**£25M**
O waith adnewyddu'r trefniadau rheoli seilwaith a gwariant arall sy'n gysylltiedig â rheoli asedau rheilffyrdd

**£30M**
O fysiau wedi'u caffael a phrosiectau datblygu a defnyddio bysiau eraill

**£42M**
O grantiau Teithio Llesol i awdurdodau lleol

**£26M**
O brosiectau eraill
Yn cynnwys trafnidiaeth ranbarthol, rhaglenni teithio llesol, ffyrdd a cherbydau trydan

# GALLUOGI POBL A CHYMUNEDAU

Roedd 34.9 miliwn o deithwyr wedi defnyddio ein gwasanaeth. Roedd refeniw tocynnau wedi codi 8.9% i £190.3 miliwn ▲

# Cynyddu nifer y teithwyr rheilffyrdd a refeniw

Mae'r cynnydd hwn wedi cael ei sbarduno gan dwf ar draws Cymru a'r gororau o ran teithiau cymudo a hamdden.

Fe wnaethom gynnal nifer o ymgyrchoedd i annog pobl i ddefnyddio'r trên, gan gynnwys tocyn £1 ar Linellau Craidd y Cymoedd yn ystod haf 2025. Fe wnaethom hefyd lansio ein hymgyrch brand newydd, sef Yr Edau sy'n Clymu Cymru.

## Talu wrth Fynd

Rydyn ni'n gwneud tocynnau'n symlach i gwsmeriaid ar draws ein rhwydwaith. Y llynedd, fe wnaethom gyflwyno tocynnau talu wrth fynd yn Ne-ddwyrain Cymru. Eleni, cafwyd 3.9 miliwn o deithiau talu wrth fynd.

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn ehangu teithiau talu wrth fynd i Ogledd Ddwyrain Cymru.



# Bod yn brydlon a dibynadwy

Ar Linellau Craidd y Cymoedd, roedd 92.6% o drenau wedi rhedeg i amser (hyd at dri munud), sef i fyny 7.3 pwynt canran ers y llynedd. Gwnaethom y gwelliannau hyn drwy gyflwyno trenau newydd a buddsoddi mewn seilwaith sy'n eiddo i ni.

O ran gwasanaethau Cymru a'r Gororau, roedd 77.1% o drenau'n rhedeg ar amser (hyd at dri munud), sef i fyny 2.4 pwynt canran ers y llynedd. Fe wnaethom y gwelliannau hyn drwy weithio'n agos gyda Network Rail.

Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025, ni oedd y cwmni trenau a oedd wedi gwella fwyaf o ran prydlondeb a'r ail un a oedd wedi gwella fwyaf o ran dibynadwyedd. O'i gymharu â'r llynedd, mae nifer y bobl sy'n canslo ar y diwrnod wedi gostwng 1.5 pwynt canran i 3.9%.

Mae rhai llinellau wedi wynebu problemau penodol rydyn ni wedi ceisio eu hunioni. Er mwyn lleihau oedi ar reilffordd Coryton, er enghraifft, fe wnaethom drefnu bod trenau'n rhedeg heb stopio rhwng Caerffili a Chaerdydd Heol y Frenhines.

Mae ein boddhad cwsmeriaid wedi gwella i 87.7%, i fyny 3.3 pwynt canran ers 2024/25. Ein sgôr Trustpilot yw 3.9.

Rydyn ni'n dal i fod eisiau gwella. Yn y tymor byr, gall dibynadwyedd amrywio wrth i ni ddechrau defnyddio trenau newydd. Fodd bynnag, yn y tymor hirach, dylai hyn ein galluogi i wella dibynadwyedd a phrydlondeb ymhellach fyth.

## Ar Linellau Craidd y Cymoedd, roedd 92.6% o'r trenau'n rhedeg ar amser



# Rhoi sylw i Fferm Talerddig a Nordan

Mae diogelwch yn hanfodol i bopeth a wnawn. Yn ogystal â dylunio systemau sy'n sylfaenol ddiogel, mae'n bwysig ein bod yn dysgu gwersi ac yn gwella'n barhaus.

Yn dilyn gwrthdrawiad trenau Talerddig ym mis Hydref 2024, mae Cangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd wedi rhyddhau ei hadroddiad terfynol. Rydyn ni eisoes wedi cyflwyno mesurau lliniaru diogelwch ychwanegol a byddwn yn gweithio'n agos gyda phartneriaid yn y diwydiant i sicrhau bod argymhellion yr adroddiad yn cael eu hystyried yn llawn ac y gweithredir arnynt.

Ym mis Mai 2025, bu gwrthdrawiad rhwng trên TrC â threlar amaethyddol yn Fferm Nordan. Cafodd chwe theithiwr eu trin am fân anafiadau. Nid oedd gyrrwr y tractor wedi'i anafu. Mae'r Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd wedi rhyddhau ei hadroddiad a ddaeth i'r casgliad bod ein trên yn cael ei yrru'n briodol ac nad oedd gweithredoedd criw'r trên yn ffactor a gyfrannodd at y gwrthdrawiad. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Network Rail i wella diogelwch croesfannau rheilffordd.




# Cynnydd yn nifer y teithwyr ar fysiau

O ran y gwasanaethau rydyn ni'n eu rheoli, cynyddodd nifer y teithwyr ar fysiau 5.2% o'i gymharu â'r llynedd. Roedd y cynnydd yn nifer y teithwyr absoliwt ar wasanaethau rydyn ni'n eu rheoli yn 39.8%, wedi'i sbarduno gan y gwasanaethau T4 a T5 a ddaeth o dan ein rheolaeth fis Awst 2025.

Er mwyn gwella boddhad cwsmeriaid, rydyn ni wedi gwneud y canlynol:

- Cyflwyno cynigion fel £1 ar gyfer teithiau unffordd ar ôl 5pm, gan helpu pobl i ddod at ei gilydd dros gyfnod y Nadolig.
- Cyflwyno parth fflecsi newydd sy'n gwasanaethu Llanarmon, Sir Ddinbych. Buom yn gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddylunio o amgylch anghenion cymunedau lleol.
- Gwella'r hyfforddiant gwasanaeth i gwsmeriaid y mae gyrwyr yn ei gael.
- Cynhyrchu gwybodaeth gliriach am oedi a chanslo trenau.

Er gwaethaf cyflwyno mwy o wasanaethau, roedd nifer y gwasanaethau a gafodd eu canslo gan TrawsCymru 0.1 pwynt canran yn is na'r llynedd.



**O ran y gwasanaethau rydyn ni'n eu rheoli, cynyddodd nifer y teithwyr ar fysiau 5.2% o'i gymharu â'r llynedd ▲**

# Masnachfreinio bysiau

Fis Chwefror, daeth Deddf Gwasanaethau Bysiau (Cymru) 2026 yn gyfraith. Ar ôl cwblhau'r is-ddeddfwriaeth, byddwn yn gallu (mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol) pennu llwybrau, amserlenni, prisiau a safonau ansawdd gwasanaeth. Rydyn ni am i'r canlyniad fod yn wasanaeth bysiau sy'n fwy defnyddiol, dibynadwy a chynaliadwy.

Er mwyn deall beth mae pobl a chymunedau ei eisiau o fasnachfreinio bysiau, rydyn ni'n cynnal ymgynghoriadau ledled Cymru. Yn y cyntaf o'r rhain, yn Ne-orllewin Cymru yn ystod haf 2025, cynhaliodd ein tîm 22 o ddigwyddiadau ac ymatebodd dros 600 o bobl i'n hymgynghoriad.

Ym Mhowys, rydyn ni wedi bod yn rhedeg llwybrau a phrosiectau sydd wedi gwella'r gwasanaethau bws presennol. Mae hyn yn cynnwys uwchraddio safleoedd bysiau ac amserlenni ar draws y sir. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno gwisgoedd a brand newydd ar gyfer bysiau i'r gyrwyr. Byddwn yn defnyddio'r prosiect hwn i ddatblygu glasbrint ar gyfer sut gallai masnachfreinio weithio.








Wedi cynnal rhaglen hyder i deithio i dros 500 o gyfranogwyr

# Hygyrchedd a chynhwysiant

Dylai pawb allu teithio. Rydyn ni wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth i wella hygyrchedd mewn chwe gorsaf. Rydyn ni wedi agor pontydd troed a lifftiau newydd yn y Fenni, Cwmbrân, y Fflint, Llanelli, Llwydlo a'r Drenewydd.

Rydyn ni'n nodi lle gallwn ni wella hygyrchedd mewn safleoedd a gorsafoedd bysiau yng Nghymru. Mae ein holl gydweithwyr sy'n delio â chwsmeriaid yn cael hyfforddiant mynediad a chynhwysiant. Rydyn ni'n adnewyddu'r hyfforddiant hwn i sicrhau ei fod yn gyfredol, a byddwn yn ei gyflwyno yn 2027.

Eleni, fe wnaethom y canlynol:

- Ymgysylltu â phobl anabl, grwpiau cymunedol ac elusennau i ddeall lle gallwn wella.
- Cynnal digwyddiadau magu hyder fel bod mwy o bobl yn teimlo'n hyderus wrth deithio ar ein gwasanaethau.
- Lansio ffilm mewn partneriaeth â'r Innovate Trust, yn tynnu sylw at yr heriau y gallai pobl anabl ddod ar eu traws ar drafnidiaeth gyhoeddus a sut mae cyfranogwyr wedi dysgu sgiliau newydd i'w goresgyn.



# Lleihau aflonyddu a thrais ar ein rhwydwaith

Yr hyn sy'n hanfodol i'n llwyddiant yw bod cwsmeriaid a chydweithwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel ar ein rhwydwaith.

Er mwyn diogelu ein cwsmeriaid a'n cydweithwyr yn well, rydyn ni'n gwella ein gweithdrefnau adrodd, yn cynyddu nifer y cydweithwyr sy'n defnyddio camerâu y gellir eu gwisgo ac yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.

Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno proses lle rydyn ni'n ymchwilio i bob ymosodiad sy'n cael ei adrodd ar ein rhwydwaith er mwyn i ni allu deall tueddiadau'n well a chryfhau sut rydyn ni'n cefnogi cydweithwyr.

Rydyn ni'n llunio canllawiau a mesurau cadarn i wella diogelwch menywod a merched. Rydyn ni wedi cynnal adolygiad o'n gorsafoedd a'n depos drwy lens rhywedd i nodi meysydd i'w gwella a mynd i'r afael â materion sy'n benodol i rywedd. Gyda Phrifysgol Aberystwyth, fe wnaethom gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar annog mwy o fenywod a merched i gerdded, beicio ac olwyno bob dydd.

Gyda'r Grŵp Cyflawni Rheilffyrdd a Phrifysgol Caergrawnt, rydyn ni wedi dechrau astudiaeth ymchwil gymharol mewn 18 o'n gorsafoedd gyda'r nod o leihau troseddu. Fis Mawrth, cynhaliwyd cynhadledd gennym ar ddiogelwch, gan rannu arferion gorau ledled Cymru.



# Agor Depo Walnut Tree yn Ffynnon Taf

Fis Tachwedd 2025, fe wnaethom agor ein depo newydd yn Ffynnon Taf. Mae'n gartref i'n trenau tram newydd a'n Canolfan Reoli Integredig. Byddwn yn cyflwyno'r trenau tram i wasanaeth yn nes ymlaen yn 2026.



# Hyfforddiant trawma

Dangosodd arolwg ar draws y cwmni fod cydweithwyr yn teimlo nad oeddent yn cael digon o gymorth yn ystod neu ar ôl profiadau anodd.

Yn ystod haf 2025, fe wnaethom lansio hyfforddiant newydd i helpu rheolwyr i gynnig cymorth effeithiol i gydweithwyr sydd wedi profi digwyddiadau trawmatig. Enillodd wobr yng Ngwobrau Spotlight Cymru yn y categori rhagoriaeth hyfforddiant.

# BOD O FUDD I'R AMGLYCHEDD

71.2 gram o allyriadau carbon deuocsid fesul cilomedr teithwyr, i lawr o 80.5 gram yn 2024/25 ▼

# Trydaneiddio rheilffyrdd

Rydyn ni wedi gosod offer trydaneiddio ar reilffyrdd Rhymni a Bae Caerdydd, gan gwblhau ein prosiect trydaneiddio ar Linellau Craidd y Cymoedd. Rydyn ni bellach wedi gosod 170km o linell wedi'i thrydaneiddio.

Bydd trydaneiddio llinellau yn caniatáu i ni gyflwyno ein trenau tram. Bydd y fflyd newydd yn gweithredu rhwng Pontypridd a Bae Caerdydd i ddechrau, gan ddarparu gwasanaethau mwy gwyrdd ac amlach.

# Cerbydau trydan

Mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a thirfeddianwyr eraill, gwnaethom gefnogi'r broses o barhau i gyflwyno seilwaith gwefru cyflym ledled Cymru. Fe wnaethom helpu Llywodraeth Cymru i asesu a monitro'r defnydd o'r seilwaith.



Gosodwyd 40 o siediau beiciau diogel ▲

# Siediau beiciau a mannau parcio

Fe wnaethom osod 40 o unedau siediau beiciau diogel gyda phum cymdeithas dai mewn wyth lleoliad gwahanol ledled Cymru.

# Adbweru bysiau

Rydyn ni bob amser yn ceisio gwneud trafnidiaeth yn fwy cynaliadwy. Mewn partneriaeth, rydyn ni wedi trosi dau fws disel yn gerbydau trydan i leihau allyriadau trafnidiaeth fel cynllun peilot ar gyfer gwaith posibl yn y dyfodol.

# Tywydd eithafol

Mae tywydd difrifol fel storm Goretti yn effeithio ar ein gallu i redeg gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau.

Rydyn ni'n parhau i wella ein gallu i wrthsefyll tywydd eithafol drwy weithio'n agosach gyda Network Rail a gwella pa mor gyflym mae data'n cael ei adrodd.



# CEFNOGI ARDALOEDD LLEOL A'R ECONOMI

£140 miliwn o gyllid wedi'i gymeradwyo ▲

# Gwelliannau i orsaf Caerdydd Canolog

Mae £140 miliwn o gyllid wedi'i gymeradwyo ar gyfer gwella gorsaf Caerdydd Canolog. Bydd y gwaith yn dechrau yn nes ymlaen yn 2026. Mae'r gwelliannau'n cynnwys:

- ehangu'r cyntedd deheuol i gynyddu capasiti
- gwell mesurau llif teithwyr
- gweithio i leihau gorlenwi
- gwell mynediad i bobl anabl.






ffeibr

# TrC Ffeibr

Cafodd Ffeibr ei lansio ym mis Tachwedd 2024, ac mae'n rhwydwaith Ffeibr llawn a adeiladwyd ochr yn ochr â thrydaneiddio Llinellau Craidd y Cymoedd. Mae'n cynnig cysylltedd cadarn i rai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.





# Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru

Rydyn ni'n cynnal Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Rydyn ni bellach wedi cyhoeddi ein set gyntaf o ganlyniadau. Mae'r arolwg yn casglu data ar agweddau teithio a gwybodaeth am sut, pam, pryd a ble mae pobl yn teithio. Dyma'r tro cyntaf i ddata arolygon teithio sy'n benodol i Gymru fod ar gael ers 2012.

# Helpu awdurdodau lleol i annog cerdded, olwyno a beicio

Rydyn ni'n rhoi cyngor dylunio, adolygiadau a chanllawiau technegol i awdurdodau lleol i wella cerdded, olwyno a beicio yng Nghymru.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cynnal cwrs hyfforddi ar gyfer swyddogion cynghorau i'w helpu i ddarparu cynlluniau cerdded, olwyno a beicio o ansawdd uchel.
- Gweithio gyda chynghorau Wrecsam, Powys, Bro Morgannwg a Sir Fynwy i gynhyrchu lluniadau cynllun cam cynnar o gynigion teithio llesol.
- Cynhyrchu pecynnau dylunio manwl sy'n barod ar gyfer adeiladu i Gyngor Sir Powys.

# GWELLIANNAU I'R AMSERLEN




## Fis Rhagfyr 2025, fe wnaethom gyflwyno amserlen rheilffyrdd newydd. Roedd y manteision yn cynnwys:

- Dyblu'r amlder rhwng Caer a Wrecsam.
- Rhedeg gwasanaethau dydd Sul ar reilffordd Coryton.
- Pum trên y dydd (i fyny o bedwar) ar reilffordd Calon Cymru.
- Trenau hwyrach ar nos Wener o Gaerdydd i Dreherbert, Aberdâr a Merthyr.

# Trafnidiaeth ranbarthol

Fe wnaethom gefnogi Cyd-bwyllgorau Corfforedig i gynhyrchu cynlluniau sy'n benodol i'r rhanbarth ar gyfer datblygu trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i wella Porth Wrecsam a Chaerdydd Canolog.

# Cymorth elusennol

Cododd ein cydweithwyr dros £17,000 mewn rhoddion preifat i Seren Dwt, elusen sy'n rhoi bocsys croeso i fabanod sy'n cael eu geni gyda Syndrom Down yng Nghymru.

# Turn Caergybi

Ym mis Mawrth 2026, ymunodd ein turn newydd â'r gwasanaeth yng Nghaergybi. Bydd yn ein helpu i gywiro difrod i olwynion oherwydd amodau'r hydref a'r gaeaf. Gall y turn wasanaethu unrhyw drên yn ein fflyd.

Codwyd dros £17k mewn rhoddion preifat i Seren Dwt ▲



# Cynhwysiant yn TrC

Mae'n bwysig bod ein cwmni'n adlewyrchu'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Rydyn ni'n cynnal lleoliadau 20 wythnos â thâl i bobl ifanc yn y gymuned leol. Cynyddodd cyfran y cydweithwyr sy'n fenywod dros y flwyddyn. Mae Rhwydweithiau Cefnogi Cydweithwyr yn caniatáu i'n pobl feithrin cynhwysiant a chefnogi ei gilydd.

Mae gennym ragor o gynnydd i'w wneud o ran cydraddoldeb a chynhwysiant hiliol a rhywedd. Eleni, fe wnaethom gyflwyno Panel Cynghori ar Wrth-hiliaeth i gefnogi a chraffu ar ein cynnydd. Rydyn ni'n cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth o hiliaeth a gwrth-hiliaeth i gydweithwyr.

Roedd canolrif cyffredinol ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi ehangu eleni. I gloi, rydyn ni'n bwriadu:

- gwella ein prosesau adrodd ar ddata fel ein bod yn gwybod pa feysydd i'w targedu.
- cydraddoldeb – asesu unrhyw newidiadau cyflog.
- parhau i wella ein diwylliant.



**Roedd 44.8% o ymgeiswyr sy'n fenywod wedi llwyddo i gael swydd gyda TrC**

# DYRCHAFU'R GYMRAEG A DIWYLLIANT CYMRU

# GWOBR PERSON Y FLWYDDYN

Cafodd Lowri Joyce, Arweinydd Strategaeth y Gymraeg ei henwi'n Berson y Flwyddyn yng Ngwobrau Spotlight Cymru. Mae'r wobr yn anrhydeddu arweinyddiaeth eithriadol yn y diwydiant rheilffyrdd yng Nghymru.




"Rwy'n credu'n gryf y dylai pawb – dysgwyr a'r rhai sy'n siaradwyr hyderus ac unrhyw un arall, gael y cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae'r Gymraeg i bawb."

Lowri Joyce

# Eisteddfod

Eleni, cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Wrecsam. Er mwyn helpu pobl i deithio yno'n gynaliadwy, rhoesom fysiau gwennol ar waith a oedd yn cludo 23,500 o bobl rhwng yr orsaf a'r Maes.

Fe wnaethom ymgysylltu â miloedd o bobl a ddaeth yno, cynnal panel gyda CyclingUK, a chroesawu corau a'r canwr Al Lewis.





# Digwyddiadau

Eleni, fe wnaethom helpu cwsmeriaid i deithio yn ôl ac ymlaen i ddigwyddiadau mawr yng Nghaerdydd, Caer a Wrecsam. Roedd hyn yn cynnwys: Rasys Caer, cyngerdd Oasis, digwyddiadau cerddoriaeth fyw Blackweir, gemau rygbi Pencampwriaeth y Chwe Gwlad, a gemau pêl-droed cenedlaethol a rhyngwladol.

Er mwyn annog mwy o bobl i deithio i ddigwyddiadau ar drafnidiaeth gyhoeddus, fe wnaethom redeg trên hwyrach i'r Gogledd ar ôl nifer o gemau pêl-droed rhyngwladol.

# Partneriaethau cymunedol

Rydyn ni'n gweithio gyda chymunedau lleol lle bynnag y bo modd. Eleni, roedd ein gwaith yn cynnwys:

- Cynhyrchu menter celf gymunedol newydd yng ngorsaf drenau Bae Colwyn.
- Cefnogi Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol 3 Sir Gysylltiedig i gynnal cyfres o deithiau am ddim dan arweiniad arbenigwyr yng Nghaer a Wrecsam.
- Sefydlu Partneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol newydd i hyrwyddo teithio cynaliadwy, iechyd a llesiant, twristiaeth a datblygu economaidd ar hyd Llinellau Craidd y Cymoedd.
- Gweithio mewn partneriaeth â Heartbeat Trust UK i gefnogi'r gwaith o osod 18 pecyn rheoli gwaedu mewn gorsafoedd ledled Caerdydd.
- Noddi Eisteddfod yr Urdd, Tafwyl a Gwobr Cerddoriaeth Cymru.



# Rheilffordd 200

Eleni, roedd hi'n 200 mlynedd ers sefydlu'r rheilffordd fodern. Fe wnaethon ni helpu i'w ddathlu drwy wneud y canlynol:

- Lansio digwyddiad yn Aberystwyth.
- Croesawu Inspiration, sef trên arddangos, i Landudno.
- Cynnal 96 o ddigwyddiadau a gweithgareddau gyda dros 100 o bartneriaid.







# RISG

## Mae rheoli risg yn rhan annatod, weladwy a chyson o'n gwaith. Rydyn ni'n ei integreiddio yn ein gwerthoedd, ein llywodraethu a'n hymddygiad. Drwy ein prosesau rheoli risg, rydyn ni'n gwreiddio diwylliant o ymwybyddiaeth o risg ar draws TrC.

Y Tîm Arwain Gweithredol sy'n berchen ar y camau gweithredu perthnasol ac mae'r Bwrdd yn craffu ar reoli risg drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae ein fframwaith rheoli risg menter yn cyd-fynd â'r Safon Ryngwladol ar gyfer Rheoli Risg (ISO 31000) ac mae'n dilyn Canllawiau Trysorlys EF ar Reoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau, Parodrwydd i Dderbyn Risg. Mae rheoli risg yn rhan hanfodol o'n holl weithgareddau busnes ac mae'n gyfrifoldeb craidd ar bob cydweithiwr, ymgynghorydd a'n cadwyn gyflenwi.

Eleni, cynhaliodd y Bwrdd adolygiad manwl o'r risgiau ar lefel menter a pharodrwydd y sefydliad i dderbyn risgiau a chyfleoedd. Mae'r dull hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio yn is-gwmnïau TrC.

Rydyn ni'n edrych yn fyd-eang ar reoli risg. Dangosir hyn gan ein bod wedi canfod yn gynnar y risgiau sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro yn y Dwyrain Canol a'i effaith ar danwydd a'r gadwyn gyflenwi ehangach. Datblygwyd cynlluniau lliniaru, gan gynnwys cadarnhad o gynlluniau parodrwydd cenedlaethol.

Mae risg seiber, yn enwedig y risg i seilwaith cenedlaethol critigol fel trafnidiaeth gyhoeddus, yn risg allweddol gyda nifer o ddrwgweithredwyr byd-eang yn awyddus i ymchwilio i ragofalon seiber a'u profi. Rydyn ni wedi adeiladu, profi a chryfhau ei amddiffynfeydd seiber.

Cwblhaodd y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd archwiliad o'n diogelwch digidol, fel rhan o ymgyrch genedlaethol, i gadarnhau bod TrC yn cydnabod ac yn rheoli risg diogelwch digidol. Roedd yr arolygiad hwn yn adeiladu ar arolygiad 2025 a ganfu fod TrC wedi bod yn rhagweithiol yn y maes hwn ac roedden ni'n mabwysiadu dull gweithredu integredig, gan gynnwys gyda chontractio caffael a sicrwydd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae rhaglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd wedi gwella ei dull o reoli risg yn sylweddol. Rydyn ni'n cynnal adolygiadau risg misol ar lefel rhaglen ac asesiadau risg cost meintioledig systematig. Mae'r rhain yn rhoi darlun cliriach o ansicrwydd o ran costau a chyflawni, ac mae mwy o ymgysylltu gan berchnogion risg wedi gwella ansawdd data, wedi cryfhau cynllunio lliniaru ac wedi galluogi uwch arweinwyr i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Mae risgiau eraill yn cael eu hystyried yn risgiau lefel strategol. Mae'r rhain:

- yn eiddo i Gyfarwyddwr Gweithredol
- yn cael eu huwchgyfeirio i'r Tîm Arwain Gweithredol i'w adolygu
- yn destun craffu a herio gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r risgiau a'r cyfleoedd hyn, a sut rydym yn eu lliniaru.

**Tabl 5:** Risgiau a mesurau lliniaru.

| Risg | Mesurau Lliniaru |
|---|---|
| **Newidiadau i gyllid y llywodraeth** | Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid ac i gytuno ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. |
| **Adennill cyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop** | Cynnal tystiolaeth glir a thrywydd archwilio. |
| **Cyflawni prosiectau rheilffyrdd** | Gwneud y gwaith fesul cam yn unol â'r gofynion. |
| **Cynhyrchu refeniw cyffredinol** | Manteisio i'r eithaf ar nawddogaeth rheilffyrdd a TrawsCymru, gan gynnwys gwerthu tocynnau Dosbarth Cyntaf. |
| **Gwrthdaro, tanwydd a chadwyn gyflenwi'r Dwyrain Canol** | Mae ymgysylltu cynnar â chyflenwyr yn mynd rhagddo ar gyfer contractau hanfodol.<br><br>Ymgysylltu â chyflenwyr ac eraill. |
| **Seiberddiogelwch a therfysgaeth** | Meithrin mwy o wydnwch a chynlluniau adfer. |
| **Perthynas â phartneriaid, darparu masnachfreinio bysiau a bodloni disgwyliadau cwsmeriaid** | Ymgysylltu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru.<br><br>Cynigion i gwsmeriaid a chyfathrebu clir a chyson. |
| **Tywydd eithafol** | Gweithredu'r amcanion a nodir yn ein Cynllun Gwydnwch ac Addasu i'r Hinsawdd.<br><br>Datblygu a defnyddio cynlluniau i gadw ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid yn ddiogel. |
| **Diwylliant sefydliadol a chynllunio'r gweithlu** | Ymgorffori ein gwerthoedd mewn arferion gwaith.<br><br>Cyflawni canlyniadau'r Strategaeth Pobl. |
| **Diwygiadau Great British Rail** | Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar oblygiadau diwygio rheilffyrdd i Gymru.<br><br>Parhau i weithio mewn partneriaeth â Network Rail. |
| **Integreiddio dulliau teithio, gwasanaethau rheilffyrdd dibynadwy a chyflwyno trenau newydd** | Cysoni amserlenni a rhwydweithiau lle bynnag y bo modd.<br><br>Parhau â'r gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio a'r rhagolygon adnewyddu.<br><br>Defnyddio'r strategaeth perfformiad ar y cyd â phartneriaid. |

# DATGANIAD ADRAN 172

## Datganiad uniongyrchol

Mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi gweithredu'n ddidwyll i hyrwyddo llwyddiant hirdymor TrC er budd ei berchennog (Llywodraeth Cymru), ei gwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan roi sylw dyledus i'r materion a nodir yn adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

## Sut mae'r Bwrdd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 172

Mae Cyfarwyddwyr TrC, a'r Bwrdd gyda'i gilydd, yn rhwym wrth y dyletswyddau a nodir o dan adran 172 o Ddeddf Cwmnïau 2006, i hyrwyddo llwyddiant TrC er budd Llywodraeth Cymru, cwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae deall gofynion, pryderon ac uchelgeisiau ein rhanddeiliaid yn allweddol i helpu'r Bwrdd i greu strategaeth fusnes effeithiol a chynaliadwy. Mae ystyried y materion hyn yn barhaus yn rhan annatod o drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd i sicrhau cynnydd cynllun corfforaethol TrC, yr amcanion strategol a hyrwyddo llwyddiant hirdymor TrC.

Mae'r Bwrdd yn deall ei bod yn bwysig bod TrC yn cynnal ei enw da am gynnal busnes i'r safonau uchaf. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gwahanol grwpiau rhanddeiliaid yn cael eu hystyried a'u trin yn deg yn ei drafodaethau, tra bod pob penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â'n pwrpas, ein diwylliant a'n gwerthoedd.

Rydyn ni wedi integreiddio ein hadroddiadau ar draws yr adroddiad blynyddol hwn i'w gwneud yn glir sut rydyn ni wedi ystyried canlyniadau tymor hir ein penderfyniadau. Yn benodol, rydyn ni'n ystyried ein cyfrifoldebau cyfreithiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, buddiannau gweithwyr, cwsmeriaid a chyflenwyr, yr amgylchedd, ein cymunedau a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn hyrwyddo llwyddiant hirdymor TrC drwy sicrhau bod y Bwrdd yn glynu wrth y safonau ymddygiad uchaf, drwy ei weithredoedd ei hun a gweithredoedd ei weithwyr a thrwy ddeall goblygiadau hirdymor ei benderfyniadau. Mae'n gwneud hyn drwy'r isod.

## Diffinio pwrpas, diwylliant, gwerthoedd a strategaeth TrC

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae TrC wedi sefydlu ei weledigaeth, ei genhadaeth, ei bwrpas a'i werthoedd newydd sydd bellach wedi'u gwreiddio ar draws y sefydliad, gan arwain datblygiad strategol a phenderfyniadau'r Bwrdd. Wrth galon strategaeth hirdymor TrC mae'r Rhwydwaith T, ein huchelgais i ddarparu system drafnidiaeth integredig, aml-ddull i Gymru. Mae gwerthoedd TrC wedi cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cydweithredol, moesegol a hirdymor. Mae hyn yn galluogi dull cyson, gwydn sy'n canolbwyntio ar y cwsmer o ymdrin â thrafnidiaeth, sy'n cydbwyso canlyniadau ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru.

## Sicrhau gwybodaeth o ansawdd uchel gan y Bwrdd

Bob blwyddyn, mae'r Bwrdd yn pennu amcanion a meysydd ffocws craidd y Prif Swyddog Gweithredol. Mae'r Cadeirydd a'r Bwrdd yn defnyddio'r rhain i gynllunio agendâu. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod cyfarfodydd y Bwrdd o safon uchel a bod y Bwrdd yn bodloni gofynion newidiol y busnes a'i randdeiliaid. Mae papurau'r Bwrdd yn destun proses adolygu gadarn i sicrhau eu bod yn glir, yn gywir ac o'r ansawdd uchaf.

## Trafodaethau a phrosesau gwneud penderfyniadau agored y Bwrdd

Mae amgylchedd Bwrdd TrC yn annog trafodaeth a diwylliant o wneud penderfyniadau sy'n agored, yn onest ac yn atebol. Mae eu penderfyniadau'n cael eu herio'n drylwyr i sicrhau bod buddiannau rhanddeiliaid yn cael eu deall a'u hystyried. Mae hyn yn golygu bod penderfyniadau'n cael eu gwneud i gefnogi llwyddiant cynaliadwy hirdymor cyffredinol.

Mae ein Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru a'r gororau er mwyn iddo allu clywed yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr trafnidiaeth, a deall yr heriau economaidd, cymdeithasol a daearyddol amrywiol maen nhw'n eu hwynebu. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i seilio ei benderfyniadau strategol ar ddealltwriaeth uniongyrchol a chyfredol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Yn 2025/26, cyfarfu'r Bwrdd yng Nghaerfyrddin, Llandudno, Machynlleth, Casnewydd, Pontypridd, Amwythig a Wrecsam.

## Deall sgiliau, gwybodaeth a phrofiad gofynnol y Bwrdd

Mae gan aelodau'r Bwrdd arbenigedd a phrofiad eang a pherthnasol. Maen nhw'n defnyddio hyn i lywio ac arwain penderfyniadau i sicrhau bod hyn o'r ansawdd uchaf ac er budd TrC yn y tymor hir. Mae Cyfarwyddwyr yn canolbwyntio eu harbenigedd amrywiol ar wahanol feysydd o'r busnes i ddarparu cydbwysedd a goruchwyliaeth gadarn.

## Ystyried buddiannau ac effaith rhanddeiliaid

Er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei rwymedigaethau o dan adran 172, mae pob papur Bwrdd yn cynnwys dogfen esboniadol sy'n amlinellu'r canlynol:

- pa randdeiliaid y gallai penderfyniad a wneir gan y Bwrdd ar y mater dan sylw effeithio arnynt
- esboniad o sut mae buddiannau'r rhanddeiliaid hynny wedi cael eu hystyried
- effaith penderfyniadau posibl y Bwrdd.

## Sut rydyn ni'n ymgysylltu â'n cwsmeriaid

Mae buddiannau ein cwsmeriaid yn rhan greiddiol o'n prosesau gwneud penderfyniadau. Rydyn ni'n gwahodd adborth gan ein grwpiau cynghori a chwsmeriaid yn rheolaidd i wella ein profiad i gwsmeriaid. Gall cwsmeriaid gysylltu â ni dros y ffôn, drwy lythyr neu ar-lein i gofrestru cwynion a rhoi adborth i ni. Ar ein gwefan, rydyn ni'n darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau ac unrhyw newidiadau, yn enwedig unrhyw darfu sydd wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio. Rydyn ni'n sicrhau bod gwybodaeth ar gael am sut i archebu cymorth teithio hygyrch.

## Y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu

Mae ein gwasanaethau'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru a'r gororau. Mae ein timau Rheilffyrdd Cymunedol ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn meithrin cysylltiadau ac yn hyrwyddo anghenion cymunedol drwy brosiectau a digwyddiadau lleol cyn gwaith seilwaith mawr, er enghraifft.

Er na allwn ni bob amser atal tarfu, mae adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn cael ei ymgorffori ar ffurf gwersi a ddysgwyd. Mae ein Panel Cynghori chwarterol (sy'n cynnwys cynrychiolwyr o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, diwydiant a chymunedau ymylol) yn cynnig adborth a chyngor i lywio ein penderfyniadau. Rydyn ni hefyd wedi cyflwyno fforwm rhanddeiliaid Cymru Gyfan a'r Gororau bob chwarter, wedi'i rannu'n bedwar fforwm rhanbarthol, i lywio a chasglu adborth ar faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus.

## Ein cyflenwyr

Mae ein partneriaethau cyflenwyr yn hanfodol i'n cynlluniau a'n gwasanaethau hirdymor ac rydyn ni'n gwella ein cadwyn gyflenwi'n barhaus drwy ymgysylltu'n agos â chyflenwyr. Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn rhoi adborth ar faterion y gadwyn gyflenwi yn rheolaidd drwy adroddiadau ac asesiadau risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn cael diweddariadau a gall herio penderfyniadau caffael.

## Gwneud penderfyniadau cynaliadwy

Mae ein Bwrdd yn cydnabod effaith hirdymor ei benderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol, gan gynnwys y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, yr amgylchedd, yr economi ac iechyd y cyhoedd. Mae gyfrifoldeb cyfreithiol i gysoni ein gweithredoedd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y pum ffordd o weithio tuag at yr egwyddorion datblygu cynaliadwy, a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol Cymru.

Ein nod yw ystyried canlyniadau ein penderfyniadau'n gynnar, gan fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol yn brydlon er mwyn gwneud dewisiadau gwell. Mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i leihau ein cyfraniad at newid yn yr hinsawdd, gwella bioamrywiaeth, ac arwain ymdrechion i ddatgarboneiddio a theithio cynaliadwy.

## Symud Ymlaen

Yn ystod y flwyddyn nesaf, mae ein Bwrdd wedi ymrwymo i ddatblygu ein gwaith presennol ymhellach i wella'r ffordd maen nhw'n gwneud penderfyniadau ac i roi sylw dyledus i'r materion o dan a172 Ddeddf Cwmnïau 2006.

# Pwyllgorau'r Bwrdd

## Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn goruchwylio system rheoli risg a rheolaeth fewnol TrC, ei adroddiadau ariannol ac anariannol, a'r Gymraeg yn TrC a'r tu allan iddo.

## Y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu

Mae'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu yn goruchwylio strategaeth cwsmeriaid TrC a'i gynlluniau cyflawni. Mae'r Pwyllgor yn adolygu metrigau perfformiad gweithredol anariannol ynghyd ag adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ganolog i bopeth a wnawn a bod cynllun clir ar waith i gyflawni'r gwasanaeth a'r trawsnewid y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl.

## Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd

Mae'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod ei fuddiannau a'i atebolrwydd ar gyfer iechyd, diogelwch, llesiant, cynaliadwyedd, addasu i'r hinsawdd, gwydnwch, diogelwch a pharhad busnes yn cael eu rheoli'n briodol. Mae'n sicrhau bod mesurau cadarn ar waith mewn perthynas â gweithgareddau'r cwmni gan eu bod yn effeithio ar y cyhoedd (gan gynnwys cwsmeriaid), gweithwyr uniongyrchol ac anuniongyrchol, contractwyr a chyflenwyr. Mae'n adolygu amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad allweddol, gan wneud argymhellion, cynnig her ac atgyfnerthu gweithgareddau cadarnhaol i hyrwyddo gwelliant parhaus ac yn rhannu arferion gorau ar draws buddiannau TrC.

## Y Pwyllgor Prosiectau Mawr

Mae'r Pwyllgor Prosiectau Mawr yn sicrhau bod y weithrediaeth yn canolbwyntio'n drylwyr ar ddiogelwch, cyflawni, rheolaethau a rheoli risg prosiectau mawr. Mae'r pwyllgor hefyd yn monitro'r llif o brosiectau newydd posibl. Mae'r pwyllgor yn cymryd adroddiadau rheolaidd ar gyflawni prosiectau ar ran y Bwrdd. Mae'n monitro ac yn herio mesurau lliniaru risg a'r amgylchedd rheoli a sefydlwyd gan y Weithrediaeth.

## Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau

Mae'r Pwyllgor Pobl yn helpu'r Bwrdd i adolygu Strategaeth Pobl TrC. Mae'n sicrhau bod y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol yn cadw strwythur, maint a chydbwysedd priodol. Mae'n adolygu cynlluniau datblygu blynyddol timau arwain. Mae'r Pwyllgor yn monitro metrigau a dangosfyrddau allweddol i gefnogi'r gwaith o asesu perfformiad presennol a nodau TrC ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio'r rhaglen amrywiaeth a chynhwysiant.

# DATGANIAD GWYBODAETH ANARIANNOL A CHYNALIADWYEDD (NFSI)

## Newid yn yr hinsawdd

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau bod uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn cael eu cyflawni. Mae'r rhain yn cynnwys cyrraedd targedau datgarboneiddio, ymateb i'r argyfwng hinsawdd, ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Rydym wedi asesu bod yr hinsawdd yn brif risg i'r sefydliad, yn bennaf oherwydd y risg o darfu a difrod oherwydd cynnydd mewn tywydd eithafol.

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Strategol yn cynnwys ein datgeliadau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Cafodd ei hysgrifennu yn unol â Deddf Cwmnïau 2006, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cwmnïau (Adroddiad Strategol) (Datgeliad Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd) 2022. Rydym wedi cyd-fynd ag argymhellion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n gysylltiedig â'r Hinsawdd a chanllawiau a ddarparwyd gan Drysorlys EF ym mis Rhagfyr 2024.

## Llywodraethu

Y Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am bennu strategaeth TrC, sy'n ymgorffori risgiau a chyfleoedd yn ymwneud â'r hinsawdd. Bwrdd TrC, y Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg sy'n rheoli, yn monitro ac yn berchen ar y risgiau strategol.

Rydym yn nodi risgiau a chyfleoedd o amrywiaeth o ffynonellau. Er enghraifft, drwy asesiadau risg prosiect neu drwy weithdai ar themâu. Maent yn cael eu cofnodi a'u hasesu yn erbyn ein proffil parodrwydd i dderbyn risg, gan gefnogi gwaith blaenoriaethu a lliniaru. Caiff Adroddiadau Risg Strategol misol eu cyflwyno i Fwrdd TrC a'r Tîm Arwain Gweithredol gan y Tîm Risg ar gyfer monitro a rheoli parhaus. Mae Aelod Dynodedig o'r Tîm Arwain Gweithredol wedi cael ei neilltuo ar gyfer risgiau strategol. Mae hyn yn darparu perchnogaeth o'r risg a'r mesurau lliniaru.

Mae'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn monitro cynnydd yn erbyn nodau a thargedau yn uniongyrchol a thrwy is-bwyllgorau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro ein rheolaethau mewnol ar gyfer rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Mae'r rhain yn cynnwys risgiau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- risgiau pontio (newidiadau sydd eu hangen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd)
- cyflawni'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Gwydnwch ac Addasu i'r Hinsawdd
- y Strategaeth Ynni
- ein Cynllun Rheoli Carbon ar gyfer y dyfodol.

Mae hyn yn galluogi Bwrdd TrC i oruchwylio a chraffu ar benderfyniadau a allai effeithio ar y parodrwydd corfforaethol i dderbyn risg.

Er mwyn cynnal a datblygu arbenigedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, mae'r Tîm Newid Hinsawdd yn darparu sesiynau briffio ar wyddoniaeth hinsawdd, gofynion rheoleiddio, a risgiau sectorol i'r sefydliad yn ehangach. Mae'r tîm yn cefnogi uwch arweinwyr i adolygu metrigau, targedau ac adroddiadau hinsawdd.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran lywodraethiant yn ein Hadroddiad Carbon 2026.

## Strategaeth

Mae ein Strategaeth Gorfforaethol yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion allweddol i herio a gwrthdroi ymddygiad hirsefydlog ym maes trafnidiaeth. Bydd hyn yn annog mwy o bobl i deithio'n llesol ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau allyriadau o ddefnyddio ceir preifat.

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw nodi a rheoli risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor ein gweithrediadau. Rydym wedi datblygu Cynllun Gwydnwch ac Addasu i'r Hinsawdd (CARP). Mae'r Cynllun hwn, a gyhoeddwyd yn 2023, yn sicrhau bod ein holl weithrediadau, asedau, gwasanaethau a buddsoddiadau yn y dyfodol yn cael eu dylunio, eu cyflawni a'u rheoli mewn ffordd sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys gwreiddio'r gallu i wrthsefyll yr hinsawdd yn y broses o wneud penderfyniadau bob dydd, asesu risgiau, rhoi datrysiadau addasu ar waith, a sicrhau ein bod yn gallu eu hadfer ar ôl tywydd eithafol.

Rydym wedi defnyddio gwybodaeth o'n Hasesiad Llwybrau Addasu Cyflym (a gynhaliwyd ym mis Awst 2024). Rydym wedi dechrau nodi llwybrau addasu ac ymyriadau gwydnwch ar gyfer gorsafoedd, llwybrau ac asedau allweddol. Rydym wedi cydweithio â Network Rail i ddeall yn well beth yw'r opsiynau i addasu i'r hinsawdd a gwrthsefyll y tywydd ar ein rhwydwaith.

Rydym wedi defnyddio ein hasesiad Y Gallu i Addasu (Matrics Aeddfedrwydd) i adeiladu ein lefel aeddfedrwydd addasu bresennol. Ar hyn o bryd, rydym yn eistedd ar lefel o 2-3 allan o 5; sy'n awgrymu ein bod yn gryf ym maes llywodraethu a strategaeth ar gyfer gwrthsefyll ac addasu i'r hinsawdd. Rydym wedi cymryd camau pellach i wella ein lefel aeddfedrwydd a'n gallu i addasu drwy wreiddio a gweithredu pum amcan strategol Cynllun Gwydnwch ac Addasu i'r Hinsawdd TrC ar draws y sefydliad.

Dyma rai enghreifftiau o hyn:

- Gwreiddio gwydnwch mewn perthynas â'r hinsawdd yn y camau cychwynnol wrth ddatblygu prosiectau mawr
- Cyfleu risgiau newid yn yr hinsawdd i dimau perthnasol ar draws y sefydliad
- Rhoi mesurau lleihau risg ac effaith ar waith.

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a chostau addasu yn cael eu hintegreiddio yn ein prosesau cynllunio ariannol a dyrannu cyfalaf tymor hir. Lle bo'n berthnasol, mae darpariaethau ar gyfer addasu i'r hinsawdd yn cael eu datgelu yn ein datganiadau ariannol, ac mae dadansoddiadau o senarios yn sail i brisio asedau a phrofi amhariad.

Bydd penderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol yn cael eu hasesu yn erbyn llwybrau crynodiadau cynrychioliadol (RCP), senarios hinsawdd safonol a ddefnyddir gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd i fodelu newidiadau yn y dyfodol. Rydym yn defnyddio senarios RCP6.0 a RCP8.5 i sicrhau gwydnwch ariannol o dan amrywiaeth o ganlyniadau hinsawdd. Cafodd y senarios hyn eu dewis er mwyn gwneud y canlynol:

- Sicrhau cysondeb ar draws y sector rheilffyrdd wrth ymgymryd ag asesiadau risg a chynllunio strategol.
- Adlewyrchu dyfodol realistig a'r sefyllfa waethaf bosibl o ran yr hinsawdd, gan gefnogi cynlluniau addasu cadarn.

Fe wnaethom gynnal ein hasesiad blynyddol o'n gallu i addasu ar gyfer blwyddyn ariannol 2026 ym mis Ebrill a mis Mai 2026.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran strategaeth yn ein Hadroddiad Carbon 2026.

## Effaith ariannol

Gallai risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd effeithio ar ein perfformiad ariannol, ein sefyllfa a'n refeniw. Mae'r rhain yn cynnwys:

- effaith tymor byrrach fel digwyddiadau tywydd eithafol
- effeithiau tymor hir fel tymheredd yn codi a phatrymau glawiad yn newid
- risgiau sy'n gysylltiedig â'r newid i economi carbon isel.

Rydym yn gweithio i wella ansawdd data, modelu gallu a gwydnwch ein hasesiadau o'r effaith ariannol, gan gynnwys drwy gydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid. Mae'r wybodaeth isod yn seiliedig ar ein hamcangyfrifon gorau presennol gan ddefnyddio'r data sydd ar gael.

Digwyddiadau tywydd eithafol yw'r risg ariannol fyrdymor fwyaf sylweddol i'r sefydliad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Ar Linellau Craidd y Cymoedd, gallai tarfu difrifol arwain at golledion ariannol o £100,000 i £600,000 y dydd. Fe wnaethom ni gyfrifo'r ffigur hwn gan ddefnyddio refeniw prisiau hanesyddol ac amcangyfrif y golled a allai ddeillio o darfu ar wasanaethau. Pan fydd tarfu'n parhau am sawl diwrnod, gall tywydd eithafol arwain at golledion llawer uwch.

Ar gyfer rhwydwaith Cymru a'r Gororau, mae gan Network Rail fecanwaith ariannol sy'n ein digolledu am amhariadau heb eu cynllunio ar wasanaethau a achosir gan ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth (gan gynnwys stormydd).

Byddwn yn parhau i wella ein dull o fesur effeithiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac yn datblygu mwy o fetrigau a dangosyddion perfformiad allweddol.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran gyllid yn ein Hadroddiad Carbon 2026.

# Rheoli risg

Mae ein risg fwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'r risg pwysicaf yn ymwneud â'r tywydd, ac mae rhagor o fanylion ar gael yn adran Risg yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ar dudalen 39.

Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn cael eu hintegreiddio i'n fframwaith rheoli risg cyffredinol. Rydym yn nodi, yn asesu ac yn rheoli'r risgiau hyn drwy asesiadau sy'n benodol i safleoedd ac asedau, a monitro rheolaidd.

Mae tabl cryno o rai o'r risgiau eraill i'r hinsawdd a'n rheolaethau lliniaru cysylltiedig ar gael isod.

Dyma sut rydym yn diffinio'r amserlenni.

## Tymor Byr (0–5 flynedd)

Mae'r cyfnod hwn yn cyd-fynd â'n cylchoedd cynllunio gweithredol, ein rhaglenni cerbydau, a'n hamserlenni cynnal a chadw seilwaith yn y tymor agos. Mae risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y gorwel hwn fel arfer yn ymwneud ag amhariad gweithredol uniongyrchol, gofynion cydymffurfio a chyflawni targed sero net 2030.

## Tymor Canolig (5–15 mlynedd)

Mae'r amserlen hon yn adlewyrchu oes ddisgwyliedig asedau mawr, uwchraddio seilwaith, a phenderfyniadau cynllunio defnydd tir. Mae risgiau yn y gorwel hwn yn ymwneud â dewisiadau buddsoddi strategol, effeithiau datblygu tir, ac esblygiad allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

## Tymor Hir (15+ mlynedd)

Mae'r cyfnod hwn yn cyfateb i oes asedau seilwaith arwyddocaol ac amcanestyniadau hinsawdd hirdymor ar gyfer Cymru. Mae'r risgiau yn y gorwel hwn yn ymwneud ag addasu i'r hinsawdd yn y tymor hir, gwydnwch asedau, ac effeithiau cronnus tywydd eithafol ar ddibynadwyedd a diogelwch gwasanaethau.

**Tabl 6:** Risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.

| Cyfnod y Risg | Risg | Effaith | Rheoli dulliau lliniaru |
|---|---|---|---|
| **Tymor Byr** | Gall digwyddiadau tywydd eithafol (megis llifogydd, gwres eithafol, rhew ac eira) darfu ar seilwaith, a gallai hynny arwain at oblygiadau gweithredol a chost. | Anallu i TrC gynnal y gwasanaethau a ddarperir, gyda goblygiadau cost/goblygiadau ariannol o ganlyniad i ddamweiniau, difrod i asedau, ac amhariadau ar wasanaethau. | Mesurau lliniaru sy'n addas ar gyfer y dyfodol (megis adeiladu seilwaith newydd) ac asesiadau amgylcheddol cyn gwaith.<br><br>Parhau i gynnal asesiadau risg ar draws y rhwydwaith i sicrhau bod risgiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu cofnodi a bod mesurau lliniaru priodol ar waith ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol.<br><br>Sefydlu sianeli llywodraethu ar gyfer monitro ein cynnydd er mwyn gwella ein gallu i ymaddasu i ddigwyddiadau tywydd eithafol a achosir gan newid yn yr hinsawdd. |
| **Tymor Byr** | Efallai na fydd y targed datgarboneiddio o sero net erbyn 2030 yn cael ei gyrraedd os nad oes modd adnewyddu neu addasu trenau disel. | Gallai hyn gael goblygiadau cyfreithiol, ac i gost ac enw da a golygu nad yw ymrwymiadau'n cael eu cyflawni. | Bydd hyn yn cael ei reoli drwy'r Strategaeth Datgarboneiddio Cerbydau. |
| **Tymor Byr** | Methiant i gyflawni targed sero net 2030 oherwydd allyriadau'r gadwyn gyflenwi. | Gallai hyn effeithio ar allu TrC i leihau ei allyriadau corfforaethol a gofynion Llywodraeth Cymru. | Ar y cyd â'r tîm Caffael a Chyllid, bydd y Tîm Newid Hinsawdd yn cynnal dadansoddiad manwl o allyriadau'r gadwyn gyflenwi er mwyn cael data mwy cywir ac ychwanegu hyn i wrthbwyso adroddiadau lefel uwch. Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu dull hybrid o ystyried carbon ar gyfer y gweithgaredd hwn.<br><br>Rydym yn cymryd rhan mewn cynllun peilot ar gyfer offeryn adrodd ar y gadwyn gyflenwi gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. |

| Cyfnod y Risg | Risg | Effaith | Rheoli dulliau lliniaru |
|---|---|---|---|
| **Tymor canolig** | Methiant i gyflawni targed sero net oherwydd datblygiadau ar asedau tir glas. | Gallai ein rhaglen drawsnewid arwain at ddatblygu ein hasedau tir glas.<br><br>Gallai hyn leihau'r posibilrwydd o atafaelu'r tir rydym yn berchen arno.<br><br>Os byddant yn dod yn ffynhonnell net gyffredinol o allyriadau, gallai hyn leihau eu potensial gwrthbwyso. Efallai y bydd yn rhaid i ni wneud iawn am hynny wedyn. | Rydym yn gweithio gyda'n timau rheoli tir, peirianneg a phrosiectau i sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth ystyried datblygu unrhyw asedau tir TrC. Datblygu strwythur llywodraethu ar gyfer ymgynghori â rhanddeiliaid ar asedau a phrynu tir. |
| **Y tymor canolig a'r tymor hir** | Risgiau i asedau, iechyd a diogelwch, enw da a chostau oherwydd diffyg asesiadau effaith, cynlluniau ymateb priodol a pholisïau sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol ac anffafriol. | Difrod posibl a methiant cynamserol asedau.<br><br>Mwy o darfu ar wasanaethau ac effeithiau ariannol atgyweirio asedau, iawndal am oedi a cholledion eraill. | Cydweithio â thîm perchennog y seilwaith i ddatblygu asesiadau effaith ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol ac anffafriol, a rhannu'r gwersi a ddysgwyd.<br><br>Sefydlu gweithgor tywydd eithafol i gydlynu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a pholisïau priodol ar gyfer ymateb i dywydd eithafol.<br><br>Cyhoeddi canllawiau tywydd eithafol TrC i staff a chwsmeriaid i leihau'r risg o effeithiau sy'n gysylltiedig â'r tywydd ar iechyd, teithiau, asedau a ffyrdd o weithio.<br><br>Cydlynu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau wrth gefn gyda'r tîm rheoli asedau. Mae hyn yn cynnwys gweithredu mesurau diogelu asedau ac adnewyddu ar seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd. |

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran risg yn ein Hadroddiad Carbon 2026.

# Metrigau a thargedau

Rydym yn datblygu metrigau addasu ac yn defnyddio canllawiau a safonau'r diwydiant i ddatblygu targedau ar gyfer addasu a gwydnwch. Mae hyn yn cynnwys:

- Metrigau Addasu a bennir gan y Bwrdd Safonau Diogelwch Rheilffyrdd
- Safonau gwydnwch ar gyfer perfformiad trenau, diogelwch ac iechyd asedau
- Metrigau a thargedau ar gyfer addasu a gwydnwch fel rhan o'n system rheoli amgylcheddol
- Data perfformiad trenau o ran prydlondeb ein gwasanaethau
- Cynllunio rheoli asedau gyda sgoriau penodol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ar gyfer adnewyddu.

Rydym wedi ymrwymo i gysoni ein hymdrechion o ran gwydnwch ac addasu i'r hinsawdd gydag amcanion Llywodraeth Cymru. Rydym yn cydnabod bod mynd i'r afael â risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn gofyn am lywodraethu cadarn, rhagolygon strategol, a chynnydd mesuradwy.

Yn unol â dogfennau Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd a Fframwaith Gwydnwch Cymru 2025, rydym yn gweithio i wreiddio gwydnwch mewn perthynas â'r hinsawdd. Mae'r strategaethau cenedlaethol hyn yn pwysleisio'r angen i gyrff cyhoeddus feithrin y gallu i addasu, lleihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â pheryglon yr hinsawdd, a diogelu cymunedau sy'n agored i niwed.

Mae ein Cynllun Busnes yn nodi ein gwaith i feithrin gwydnwch ein rhwydwaith a'n gwasanaethau ac i wreiddio ystyriaethau hinsawdd mewn rhaglenni a buddsoddiadau mawr.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd o ran sefydlu targedau a dangosyddion cychwynnol, rydym yn cydnabod bod angen datblygu cyfres fwy cynhwysfawr o fetrigau meintiol ac ansoddol. Bydd y rhain yn cyd-fynd â natur esblygol risgiau a chyfleoedd hinsawdd, ac yn cefnogi adroddiadau tryloyw.

Ar hyn o bryd rydym yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Mireinio methodolegau ar gyfer asesu effeithiau'r hinsawdd ac effeithiolrwydd addasu.
- Gwella'r broses o gasglu data i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol sy'n adlewyrchu risgiau corfforol a phontio, yn ogystal â chanlyniadau gwydnwch.
- Sefydlu arferion monitro a gwerthuso i olrhain cynnydd yn erbyn llinellau sylfaen a llywio buddsoddiad yn y dyfodol.

Un o'r pethau allweddol i'w cyflawni yn y maes hwn yw datblygu ein Strategaeth Gwrthsefyll y Tywydd ac Addasu i'r Newid yn yr Hinsawdd, gydag amserlen gyhoeddi darged o hydref 2026. Bydd hyn yn darparu dull strwythuredig o olrhain perfformiad ac yn cyd-fynd â safonau datgelu hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol.

Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr adran fetrigau yn ein Hadroddiad Carbon 2026.

**Tabl 7:** Metrigau a thargedau carbon.

| Disgrifiad o'r risg | Cyfnod y Risg | Ymrwymiad | Ein hamcanion, ein targedau a'n dangosyddion perfformiad allweddol |
|---|---|---|---|
| **Targedau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru** | Tymor byr (hyd at 2030) | Erbyn 2030, bydd dewisiadau di-garbon wedi dod yn arferol ac wedi'u gwreiddio. | 100% o ynni adnewyddadwy ar Linellau Craidd y Cymoedd. |
| **Targedau ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru** | Tymor canolig (hyd at 2040) | Cynyddu cyfran y dulliau trafnidiaeth gyhoeddus o amcangyfrif o 5% heddiw i 7% erbyn 2030, a 13% erbyn 2040. | Cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yng Nghynllun Datblygu Cynaliadwy 2022-27, gan gynnwys hyrwyddo teithio cynaliadwy a lleihau'r ddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat. |
| **Targedau'r diwydiant** | Tymor canolig (hyd at 2040) | Rhoi'r gorau i ddefnyddio trenau disel yn unig erbyn 2040, yn unol ag ymrwymiadau diwydiant rheilffyrdd y DU. | Rhoi'r gorau i ddefnyddio trenau disel yn unig ar Linellau Craidd y Cymoedd a Phrif Linell De-orllewin Lloegr erbyn 2040. |

# Adroddiad allyriadau carbon

## Llywodraethu

Rydym yn cyfrif ac yn adrodd ar ein hallyriadau carbon blynyddol yn unol â Gofynion Adrodd Llywodraeth Cymru sy'n gyson â safonau a dderbynnir yn fyd-eang. Mae'r canllawiau wedi cael eu datblygu i gefnogi cyrff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i leihau allyriadau cyfun i sero net erbyn 2030.

Mae ein Cynllun Rheoli Carbon a'n targedau carbon cysylltiedig wrthi'n cael eu datblygu. Rydym yn adrodd ar ddwysedd carbon ein cerbydau (gramau o garbon deuocsid cyfatebol fesul km teithwyr) i'r Grŵp Llywio Rhagoriaeth Gwasanaeth bob pedair wythnos ariannol. Rydym hefyd yn adrodd ar ddwysedd carbon ein cerbydau blynyddol fel rhan o'n dangosyddion perfformiad allweddol busnes.

## Strategaeth

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus sero net erbyn 2030. Mae ein strategaeth yn canolbwyntio ar leihau allyriadau gweithredol, gwella effeithlonrwydd ynni, a newid i wasanaethau trafnidiaeth carbon isel. Dyma'r prif fentrau strategol:

- **Cynllun Rheoli Carbon:** Rydym yn datblygu cynllun gweithredu wedi'i gostio i reoli allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3.
- **Strategaeth Ynni:** Cafodd ei chyhoeddi fel dogfen fewnol, ac mae'n fap ar gyfer datgarboneiddio ein cyflenwad ynni a gwella effeithlonrwydd ynni ar draws ein hystâd.
- **Cynllun Gwella Ynni a Charbon:** Mae'n amlinellu llwybrau technegol ar gyfer rhoi cynlluniau ynni carbon isel ar waith a gwella gwydnwch gweithredol hirdymor.
- **Newid dulliau teithio a Thrydaneiddio:** Buddsoddi mewn rhwydweithiau rheilffyrdd wedi'u trydaneiddio a fflydoedd bysiau allyriadau isel er mwyn lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Rydym yn cydnabod y bydd y galw am ynni yn cynyddu wrth i'n gwasanaethau ehangu ac wrth i drydaneiddio gynyddu. Mae ein strategaeth yn cynnwys mesurau i leihau allyriadau a gwariant ynni drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy, archwiliadau ynni, ac uwchraddio seilwaith.

**Tabl 8:** Ein hallyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26.

| Cwmpas | 2020-21 allyriadau $tCO_2e$ | 2021-22 allyriadau $tCO_2e$ | 2022-23 allyriadau $tCO_2e$ | 2023-24 allyriadau $tCO_2e$ | 2024-25 allyriadau $tCO_2e$ | 2025-26 allyriadau $tCO_2e$ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwmpas 1** | 70,674 | 81,572 | 91,338 | 92,348 | 100,225 | 99,245 |
| **Cwmpas 2** | 2,647 | 2,736 | 2,514 | 2,060 | 2,453 | 4,971 |
| **Cwmpas 3** | 176,482 | 184,193 | 198,651 | 221,911 | 188,113 | 175,332 |
| **Allyriadau defnyddio tir** | -689 | -702 | -757 | -591 | -565 | -564 |
| **Allyriadau y tu allan i'r cwmpas** | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | 68 | 134 | 3,483 |
| **Cyfanswm** | 249,114 | 267,799 | 291,746 | 315,728 | 290,226 | 278,984 |

Mae cyfanswm y ffigurau yn y tabl uchod wedi cael eu diwygio i eithrio'r allyriadau 'y tu allan i'r cwmpas' yn unol â'r weithdrefn adrodd safonol. Mae'r ffigurau ar gyfer 2024/25 hefyd wedi cael eu diwygio i adlewyrchu allyriadau wedi'u cywiro o gymudo.

Y dwysedd carbon blynyddol ar gyfer holl allyriadau cerbydau (Cwmpas 1) oedd 71 $gCO_2e$/PAX km. Allyriadau Cwmpas 1 yw'r rhai sy'n deillio o weithgareddau sydd o fewn ein rheolaeth weithredol uniongyrchol, ac yn yr achos hwn faint o danwydd sy'n cael ei ddefnyddio gan ein trenau. Mae dwysedd carbon ein cerbydau wedi gostwng 11% o'i gymharu â 2024/25.

Roedd ein hallyriadau wedi gostwng 4% neu 11,242 $tCO_2e$ yn 2025/26 o 2024/25. Roedd 35% o'n hallyriadau o Gwmpas 1, 2% o Gwmpas 2 a 63% o Gwmpas 3. Gellir priodoli'r gostyngiad mewn allyriadau eleni ers y flwyddyn flaenorol i ostyngiad yn allyriadau'r gadwyn gyflenwi, sef cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith o Drydaneiddio'r Llinell Uwchben. Ar hyn o bryd, rydym yn adrodd ar allyriadau'r gadwyn gyflenwi ar sail data gwariant a all arwain at amrywiadau sylweddol mewn allyriadau blwyddyn ar ôl blwyddyn.

Rydym wedi gweld cynnydd mewn allyriadau Cwmpas 2 oherwydd blwyddyn lawn o offer llinellau uwchben gweithredol. Mae'r allyriadau hyn wedi cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg sy'n seiliedig ar leoliad, gan adlewyrchu allyriadau cyfartalog y grid. Mae gennym gontract trydan 100% adnewyddadwy sy'n cael ei gefnogi gan REGO, felly gallwn adrodd 'dim allyriadau' yn gysylltiedig â thrydan drwy'r fethodoleg sy'n seiliedig ar y farchnad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd ar ddata sy'n seiliedig ar leoliad.

Eleni, rydym wedi dechrau adrodd ar y gweithgareddau canlynol:

- Gwasanaethau bws TrawsCymru (Cwmpasau 1 a 2)
- Gweithrediadau yn lle Trenau (Cwmpas 3)
- Arhosiadau mewn gwestai (Cwmpas 3).

Mae'r gweithgareddau adrodd newydd hyn wedi arwain at ychwanegu 1,914 $tCO_2e$ o allyriadau cwmpas 1, 73 $tCO_2e$ o allyriadau cwmpas 2, a 7,404 $tCO_2e$ o allyriadau cwmpas 3.

## Yr wybodaeth ddiweddaraf am dargedau carbon

Yn 2019, fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Effaith Carbon Isel, yn cynnwys y targedau canlynol ar gyfer ein hallyriadau carbon, ond roeddem wedi cael ein dal yn ôl rhag cyrraedd y targedau hyn oherwydd pandemig y coronafeirws.

Eleni, byddwn yn cyhoeddi targedau newydd yn ein Cynllun Rheoli Carbon.

**Tabl 9:** Targedau datgarboneiddio rheilffyrdd.

| Cwmpas | Targed | Statws |
|---|---|---|
| **Cwmpas 1 (tyniant Llinellau Craidd y Cymoedd)** | Gostyngiad o 100%* | Ar waith: rydym yn disgwyl gostyngiad o 100% erbyn diwedd 2027. |
| **Cwmpas 1 (tyniant Cymru a'r Gororau)** | Gostyngiad o 30%* | Ar waith: o fis Rhagfyr 2025 ymlaen, mae 71% o deithiau ar yr amserlen yn cael eu gwasanaethu gan drenau newydd a threnau sy'n newydd i Gymru. |
| **Cwmpas 2** | Gostyngiad o 100%* | Mae gennym gontract trydan adnewyddadwy 100% ar waith ers 2023/24. O dan fethodoleg Llywodraeth Cymru, ni allwn gyfrif hyn fel 'dim allyriadau'. Gweler yr Adroddiad Hinsawdd i gael rhagor o wybodaeth. |


* Mesurir targedau yn erbyn blwyddyn sylfaen 2020/21. Mae'r dyddiad targed wrthi'n cael ei adolygu, a bydd yn cael ei gyhoeddi yn ein Cynllun Rheoli Carbon yn ystod 2026/27.

## Gwella dulliau adrodd

Er mwyn ein helpu i ddeall mwy am yr allyriadau rydym yn eu cynhyrchu, rydym wedi datblygu prosesau cyfrifo ac adrodd cadarn ar gyfer ein hallyriadau carbon yn unol â chanllawiau adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector cyhoeddus.

- Mae allyriadau'n cael eu holrhain bob pedair wythnos ar draws trydan, nwy, dŵr, gwastraff, tanwydd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy.
- Amcangyfrifir allyriadau cymudo a gweithio gartref drwy arolygon teithio staff blynyddol a modelu ar sail cyfwerth ag amser llawn.
- Caiff data ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ddilysu a'i feincnodi.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 23 Mehefin 2026 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



**James Price**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

# DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

## Llywodraethu yn Trafnidiaeth Cymru

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n gyfrifol yn bersonol am reolaeth a llywodraethu cyffredinol Grŵp Trafnidiaeth Cymru (TrC) ac am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol, yn effeithlon ac yn unol â'r fframweithiau statudol, rheoleiddiol a pholisi perthnasol. Rwy'n atebol i Fwrdd TrC a, thrwy Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, i weinidogion Cymru a Senedd Cymru. Mae'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol hwn yn egluro sut mae'r cyfrifoldebau hyn wedi cael eu cyflawni yn ystod 2025/26 a sut mae safonau llywodraethu uchel wedi cael eu cynnal ar draws Grŵp TrC.

Mae TrC wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran llywodraethu, atebolrwydd, tryloywder ac ymddygiad moesegol. Mae llywodraethu cadarn yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a chwsmeriaid ac i sicrhau bod TrC yn cyflawni ei gylch gwaith statudol a'i amcanion strategol yn effeithiol ar ran Llywodraeth Cymru.

## Fframwaith llywodraethu

Mae TrC yn gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu sydd wedi'i ddiffinio'n glir, ac sy'n seiliedig ar y canlynol:

- ei Erthyglau Cymdeithasu
- Cytundeb Rheoli ffurfiol gyda Gweinidogion Cymru
- ei Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a'i Atodlen Dirprwyaethau.

Mae'r dogfennau a'r fframwaith hyn, gyda'i gilydd, yn nodi rolau, cyfrifoldebau a threfniadau atebolrwydd TrC ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion a blaenoriaethau trafnidiaeth Gweinidogion Cymru. Mae'r fframwaith yn cael ei lywio ymhellach gan Reoli Arian Cyhoeddus Cymru a gofynion llywodraethu ehangach, yn statudol ac yn wirfoddol.

Nid cwmni rhestredig yw TrC, felly nid oes yn rhaid i ni gydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd wedi penderfynu y bydd TrC yn cydymffurfio'n wirfoddol ag Egwyddorion Llywodraethu Corfforaethol Wates, gan eu bod yn darparu fframwaith priodol a chymesur ar gyfer cwmni cyhoeddus sy'n gweithredu er budd y cyhoedd.

# Strwythur llywodraethu ac atebolrwydd

Caiff TrC ei lywodraethu drwy strwythur aml-haenog sydd wedi'i ddylunio i ddarparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a sicrwydd effeithiol.

Gweinidogion Cymru sy'n bennaf gyfrifol am TrC. Mae Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer gwariant a rheolaeth TrC ac mae'n atebol yn uniongyrchol i Senedd Cymru. Fel Swyddog Cyfrifyddu TrC, rwy'n gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd ac am sicrhau bod systemau rheoli, rheoli risg a llywodraethu priodol ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol.

Mae gan Fwrdd TrC gyd-gyfrifoldeb dros bennu cyfeiriad strategol y sefydliad ac am oruchwylio'r gwaith o gyflawni ei amcanion. Mae'r Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth, her a chraffu ac yn sicrhau bod TrC yn gweithredu o fewn fframwaith effeithiol o reolaeth a sicrwydd mewnol. Cefnogir y Bwrdd gan ei bwyllgorau a Gan y Tîm Arwain Gweithredol, er mai'r Bwrdd sy'n atebol yn y pen draw am bob mater.

# Y Bwrdd a'r pwyllgorau

Mae Bwrdd TrC yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol sydd ag amrywiaeth eang o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gwaith ac amgylchedd gweithredu TrC. Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar y cyd, gan feithrin diwylliant agored ac adeiladol sy'n cefnogi herio effeithiol a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Eleni, cyfarfu ein Bwrdd un ar ddeg o weithiau. Mae cofnodion pob cyfarfod y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi yn https://trc.cymru/amdanom-ni/tryloywder/byrddau-ein-cwmni.

**Tabl 10:** Presenoldeb y Cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd Bwrdd TrC ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

| Aelodau Bwrdd TrC | Presenoldeb |
|---|---|
| Alun Bowen | 8/8 |
| Louise Cheeseman | 7/7 |
| Heather Clash | 11/11 |
| Vernon Everitt | 10/11 |
| Rhian Langham | 10/11 |
| Vinay Parmar | 11/11 |
| James Price | 11/11 |
| Marcia Sinfield | 3/3 |
| Peter Strachan | 6/7 |
| Scott Waddington | 4/4 |

I gefnogi ei waith, mae'r Bwrdd wedi sefydlu pum pwyllgor ffurfiol, pob un yn gweithredu o dan gylch gorchwyl cymeradwy'r Bwrdd ac yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol y Bwrdd. Mae'r pwyllgorau hyn yn darparu goruchwyliaeth a sicrwydd penodol mewn meysydd allweddol gan gynnwys archwilio a risg, pobl a thâl, twf cwsmeriaid a diogelwch. Mae cadeiryddion pwyllgorau'n adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd ar faterion sydd o fewn eu cylch gwaith, gan gynnwys penderfyniadau allweddol, risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg.

## Arweinyddiaeth weithredol a dirprwyaethau

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo Atodlen Dirprwyaethau sy'n nodi'n glir pa faterion sy'n cael eu cadw'n ôl i'r Bwrdd, a pha rai sy'n cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Gweithredol, y Tîm Arwain Gweithredol a'r Prif Swyddogion. Mae hyn yn sicrhau atebolrwydd clir ar yr un pryd â galluogi penderfyniadau gweithredol amserol ac effeithiol.

Y Prif Swyddog Gweithredol, gyda chefnogaeth y Tîm Arwain Gweithredol, sy'n gyfrifol am gyflawni strategaeth a chynllun busnes TrC, am berfformiad gweithredol, ac am wreiddio gwerthoedd a safonau llywodraethu TrC ar draws y sefydliad. Mae materion risg uchel neu effaith uchel yn cael eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd fel y bo'n briodol.

## Llywodraethu is-gwmnïau

Mae TrC yn gweithredu drwy strwythur grŵp sy'n cynnwys pedwar is-gwmni sydd o dan berchnogaeth lwyr, gan gynnwys Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru, Ffeibr TrC, a Pullman Rail Ltd. Mae gan bob is-gwmni ei Fwrdd cwmni ei hun, sy'n gyfrifol am lywodraethu a pherfformiad y cwmni hwnnw o fewn y paramedrau a bennir gan bolisïau a dirprwyaethau Grŵp TrC.

Mae Bwrdd TrC yn goruchwylio gweithgareddau'r is-gwmnïau i sicrhau cysondeb, eu bod yn cyd-fynd â strategaeth y grŵp, a bod risg yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae trefniadau llywodraethu grŵp wedi'u cynllunio i sicrhau bod gweithrediadau is-gwmnïau yn destun rheolaeth, sicrwydd a thryloywder priodol, gan ganiatáu digon o ymreolaeth i gyflawni eu hamcanion penodol.

## Rheoli risg a rheolaeth fewnol

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am sicrhau bod gan TrC system effeithiol o reolaeth fewnol i reoli'r risgiau sy'n rhan annatod o gyflawni ei amcanion. Mae'r system reoli wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na'i dileu'n llwyr ac mae'n seiliedig ar broses barhaus o nodi, gwerthuso a rheoli risgiau.

Mae rheoli risg wedi'i wreiddio ar draws y sefydliad, wedi'i gefnogi gan fframwaith risg corfforaethol ac adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu goruchwyliaeth annibynnol o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a sicrwydd.

Yn ystod 2025/26, fe wnaethom barhau i wreiddio methodolegau rheoli mewnol yn TrC a dechrau rhoi dadansoddiad ar waith ar draws ein gwybodaeth ariannol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei mireinio yn 2026/27 a bydd yn helpu i ddiogelu a gwarchod ein hasedau. Bydd yn sicrhau cywirdeb yn ein datganiadau ariannol, a glynu wrth bolisïau, rheoliadau a chyfreithiau. Bydd yn hyrwyddo arbedion effeithlonrwydd yn ein prosesau.

## Moeseg, ymddygiad a gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae TrC wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ymddygiad moesegol, sy'n seiliedig ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus. Mae'n rhaid i holl aelodau'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwyr gydymffurfio â Chod Ymddygiad a Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol TrC.

Mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr ac uwch arweinwyr ddatgan buddiannau pan gânt eu penodi ac i ddiweddaru'r datganiadau hynny'n rheolaidd. Mae trefniadau cadarn ar waith i nodi, rheoli a, lle bo angen, liniaru gwrthdaro rhwng buddiannau er mwyn diogelu uniondeb y broses o wneud penderfyniadau.

Yn ystod y flwyddyn, mae TrC wedi parhau i gryfhau ei fframwaith moeseg sefydliadol, gan gynnwys gwaith paratoi i sicrhau ei fod yn barod ar gyfer y Bil Swyddfa Gyhoeddus (Atebolrwydd) sydd ar y gweill. Mae hyn wedi cynnwys adolygu a gwella polisïau, trefniadau llywodraethu, a rheolaethau mewnol sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol, atebolrwydd, tryloywder wrth wneud penderfyniadau, a delio â gwrthdaro rhwng buddiannau. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ymrwymiad TrC i gynnal safonau uchel o ran uniondeb ac atebolrwydd cyhoeddus ac i sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu yn parhau i fod yn gadarn, yn gymesur ac yn cyd-fynd â disgwyliadau deddfwriaethol sy'n dod i'r amlwg.

## Adolygu effeithiolrwydd

Mae'r Bwrdd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rheolaidd, gan gynnwys ystyried cyfansoddiad y Bwrdd, ei sgiliau a'i ffyrdd o weithio. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau cyfnodol o effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau, a datblygiad parhaus i sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn unol â'r arferion gorau.

## Sicrwydd

Mae prif ffynhonnell sicrwydd TrC yn dod o nodi a yw ei amcanion yn cael eu cyflawni a'r risgiau'n cael eu rheoli'n dda. Yn ogystal â threfniadau archwilio mewnol TrC, rydym hefyd yn cael sicrwydd drwy adroddiadau misol i'r Bwrdd, is-bwyllgorau'r Bwrdd, y Tîm Arwain Gweithredol, cofrestrau risgiau a gwybodaeth reoli arall. Rydym hefyd wedi darparu adroddiadau i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfodydd y Bwrdd Llywio.

Yn ystod 2025/26, mae gweithgareddau archwilio mewnol wedi parhau ar draws Grŵp TrC. Mae'r tîm archwilio yn parhau i wella eu ffyrdd o weithio i gynnwys meysydd busnes a risg newydd. Mae hyn wedi galluogi'r tîm i gefnogi'r busnes ymhellach gydag argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae'r cynllun archwilio (a gymeradwywyd ym mis Mawrth 2025) wedi cael ei gyflawni dros y flwyddyn. Mae'n cynnwys adolygiadau ym meysydd seiberddiogelwch, defnyddio ymgynghorwyr ar gyfer caffael, anfonebu cwsmeriaid, rheolaethau'r system gyllid, yswiriant, rheoli cofnodion, cyflogres, diogelu, datgarboneiddio, caffael dirprwyon gweithredol allweddol, rheoli risg, cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd, Pullman Rail, hyfforddiant mewn depos, a chynnal a chadw a dangosyddion perfformiad allweddol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2026/27 ym mis Mawrth 2026, gyda rhaglen sy'n seiliedig ar risgiau yn cwmpasu holl endidau'r busnes ac amrywiaeth o feysydd ariannol ac anariannol.

# Casgliad

Mae'r Bwrdd a'r Weithrediaeth wedi'u bodloni bod TrC wedi gweithredu o fewn fframwaith llywodraethu cadarn ac effeithiol drwy gydol y flwyddyn a bod trefniadau priodol wedi cael eu cynnal i sicrhau atebolrwydd, tryloywder a stiwardiaeth briodol dros adnoddau cyhoeddus. Bydd trefniadau llywodraethu yn parhau i gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn cyd-fynd â chylch gwaith a blaenoriaethau strategol esblygol TrC.

**James Price**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

# ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG 2025/26

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg (y Pwyllgor) yn cefnogi'r Bwrdd drwy roi sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd rheoli risg, rheolaeth fewnol, prosesau llywodraethu, ac adroddiadau ariannol ac anariannol (allyriadau carbon yn bennaf).

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio'n gryf ar sicrhau bod y trefniadau hyn yn gweithredu'n effeithiol ar draws sefydliad cymhleth ac esblygol, a bod y Bwrdd yn cael sicrwydd amserol o ansawdd uchel i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

## Gweithgarwch a throsolwg y pwyllgor

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gyflawni ei gyfrifoldebau craidd yn unol â'i Gylch Gorchwyl. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Craffu ar adroddiadau ariannol ac anariannol, gan gynnwys adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol. Mae'r Pwyllgor yn sicrhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, ac yn herio tybiaethau ac amcangyfrifon allweddol.
- Goruchwylio fframweithiau rheoli risg a rheolaeth fewnol, gan gynnwys adolygu risgiau strategol, rheoli effeithiolrwydd a pharodrwydd y sefydliad i dderbyn risg.
- Monitro gweithgarwch archwilio a sicrwydd drwy oruchwylio cynlluniau ac allbynnau archwilio mewnol ac allanol, ac asesu pa mor ddigonol yw sicrwydd ar draws y sefydliad.
- Adolygu trefniadau cydymffurfio ac atal twyll ariannol, gan gynnwys cynnydd o ran cryfhau rheolaethau a gwella galluoedd atal twyll.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi sicrhau ymgysylltiad priodol ag uwch reolwyr ac archwilwyr, gan alluogi her gadarn a deialog adeiladol mewn meysydd allweddol o farn a risg.

## Meysydd ffocws allweddol yn 2025/26

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ei waith ar sawl maes blaenoriaeth.

- **Fframwaith Archwilio a Sicrwydd:** goruchwylio'r gwaith parhaus o weithredu'r Polisi Archwilio a Sicrwydd, gan gryfhau tryloywder a chydlyniant gweithgareddau sicrwydd ar draws TrC.
- **Amgylchedd rheolaeth fewnol:** cynnydd parhaus o ran gwella rheolaethau dros adroddiadau ariannol ac anariannol, gan ganolbwyntio'n benodol ar wella cysondeb, dogfennau a sicrwydd.
- **Seiberddiogelwch a seiberwydnwch:** rhoddwyd llawer o sylw i amddiffynfeydd seiber a galluoedd adfer TrC, gan gydnabod y bygythiad cynyddol i seilwaith cenedlaethol hanfodol.
- **Aeddfedrwydd rheoli risg:** adolygu a datblygu prosesau rheoli risg, gwreiddio diwylliant cryfach o ymwybyddiaeth risg a sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag arferion a safonau da cydnabyddedig.
- **Penderfyniadau adrodd ariannol:** craffu parhaus ar amcangyfrifon allweddol, gan gynnwys prisio asedau seilwaith, sy'n parhau i fod yn faes barn perthnasol yn y datganiadau ariannol.

## Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i adolygu ei effeithiolrwydd ei hun a'i Gylch Gorchwyl yn ystod y flwyddyn, gan sicrhau eu bod yn dal yn briodol ar gyfer maint a chymhlethdod gweithrediadau TrC. Drwy ei waith, mae'r Pwyllgor yn fodlon ei fod wedi gallu rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol TrC yn ystod y flwyddyn.

## Cyfnod pontio Cadeirydd

Mae'r Pwyllgor yn cofnodi ei ddiolch diffuant i Alun Bowen, y Cadeirydd sy'n gadael, a roddodd y gorau iddi ym mis Rhagfyr 2025, am ei gyfraniad sylweddol, ei arweinyddiaeth a'i ymrwymiad i gryfhau llywodraethu a sicrwydd ar draws TrC. Mae ei stiwardiaeth wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu rôl y Pwyllgor ac aeddfedrwydd fframwaith sicrwydd TrC.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu penodi'r Cadeirydd newydd, Marcia Sinfield, a benodwyd o fis Ionawr 2026 ymlaen, a bydd yn adeiladu ar y sylfaen gref hon ac yn parhau i fwrw ymlaen ag effeithiolrwydd ac effaith y Pwyllgor yn y flwyddyn i ddod.

# Edrych i'r dyfodol

Yn 2026/27, bydd y Pwyllgor yn parhau i flaenoriaethu:

- cryfhau'r amgylchedd rheolaeth fewnol ymhellach
- parhau i ddatblygu'r fframwaith archwilio a sicrwydd
- ei oruchwyliaeth o risgiau strategol a gweithredol allweddol, gan gynnwys seiberddiogelwch a gwydnwch sefydliadol
- sicrhau bod safonau uchel o ran llywodraethu ac adrodd ariannol yn cael eu cynnal.

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo o hyd i gefnogi'r Bwrdd i gynnal trefniadau llywodraethu a sicrwydd cadarn, ac i sicrhau bod TrC yn parhau i fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu.

# ADRODDIAD TALIADAU

## Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am dâl aelodau'r Bwrdd. Mae'n cynnwys cyflogau a hawliau pensiwn.

**Tabl 11:** Cyfanswm tâl unigol.

| Aelodau'r Bwrdd | Cyflog 2025/26 £000 | Cyflog 2024/25 £000 | Buddion pensiwn 2025/26 £000 | Buddion pensiwn 2024/25 £000 | Cyfanswm 2025/26 £000 | Cyfanswm 2024/25 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **James Price**<br>Prif Swyddog Gweithredol | 250-255 | 240-245 | – | – | 250-255 | 240-245 |
| **Heather Clash**<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 175-180 | 165-170 | 10-15 | 10-15 | 190-195 | 175-180 |
| **Vernon Everitt**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol – Cadeirydd (o 17/07/2025) | 45-50 | 20-25 | – | – | 45-50 | 20-25 |
| **Vinay Parmar**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol (o 16/09/2024) | 20-25 | 10-15 | – | – | 20-25 | 10-15 |
| **Rhian Langham**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol (o 16/09/2024) | 20-25 | 10-15 | – | – | 20-25 | 10-15 |
| **Louise Cheeseman**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol (o 18/11/2024 i 13/11/2025) | 15-20 | 5-10 | – | – | 15-20 | 5-10 |
| **Marcia Sinfield**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol (o 02/01/2026) | 5-10 | – | – | – | 5-10 | – |
| **Peter Strachan**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol (o 01/08/2025) | 15-20 | – | – | – | 15-20 | – |
| **Scott Waddington**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol – Cadeirydd (hyd at 17/07/2025) | 10-15 | 35-40 | – | – | 10-15 | 35-40 |
| **Alun Bowen**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol (hyd at 31/12/2025) | 15-20 | 20-25 | – | – | 15-20 | 20-25 |

| Aelodau'r Bwrdd | Cyflog 2025/26 £000 | Cyflog 2024/25 £000 | Buddion pensiwn 2025/26 £000 | Buddion pensiwn 2024/25 £000 | Cyfanswm 2025/26 £000 | Cyfanswm 2024/25 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nicola Kemmery**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(hyd at 07/07/2024) | – | 5-10 | – | – | – | 5-10 |
| **Sarah Howells**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(hyd at 17/10/2024) | – | 15-20 | – | – | – | 15-20 |
| **Alison Noon-Jones**<br>Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(hyd at 17/10/2024) | – | 15-20 | – | – | – | 15-20 |

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros a goramser. Ni chafodd bonysau na buddion o fath arall eu talu gan TrC i Aelodau'r Bwrdd.

## Pensiynau

Mae cyflogeion TrC yn aelodau o gynllun pensiwn cyfrannol diffiniedig. Mae'r ffigur buddion pensiwn ar gyfer y cynllun hwn yn cynrychioli cyfraniad y cyflogwr (8% diofyn). Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn aelodau o gynllun pensiwn TrC.

# Datgeliadau cyflog teg

Cyfrifir y Datgeliadau Cyflog Teg canlynol fel sy'n ofynnol gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth – Trysorlys EF. Mae cyfanswm y tâl a ddefnyddir yn y cyfrifiadau yn cynnwys cyflog, ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr.

Tâl band y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf yn TrC yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26 oedd £250,000-£255,000 (yn 2024/25 roedd yn £240,000-245,000). Nid oedd unrhyw gyflogai wedi cael tâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf.

Mae'r gymhareb tâl rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf a chyflog a buddion y cyflogai ar wahanol ganraddau cyflog a buddion cyflogeion y grŵp ar 31 Mawrth wedi'u nodi isod:

**Tabl 12:** Canraddau tâl a chymhareb â'r cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf.

| Canradd | Cyflog a buddion 2025/26 | Cymhareb 2025/26 | Cyflog a buddion 2024/25 | Cymhareb 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| 25ain canradd | £41,643 | 6.1 gwaith | £41,057 | 5.9 gwaith |
| 50fed canradd (canolrif) | £53,487 | 4.7 gwaith | £54,195 | 4.5 gwaith |
| 75ain canradd | £73,285 | 3.4 gwaith | £68,758 | 3.5 gwaith |

Roedd cyflogau sylfaenol blynyddol y grŵp yn amrywio o £22,222 i £250,000-255,000 (2024/25: £21,649 i £240,000-245,000).

Y newid cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflog a lwfansau ar gyfer holl gyflogeion y grŵp (a gyfrifir drwy rannu cyfanswm y cyflogau blynyddol yn ôl nifer y cyflogeion) yw 1.9%. Mae'r cynnydd canrannol cyfartalog hwn mewn tâl yn cynnwys gwahanol gytundebau cyflog o dan wahanol fodelau tâl.

Er bod codiadau cyflog yng Ngrŵp TrC yn adlewyrchu perfformiad unigolion, ychydig iawn o daliadau a bonysau perfformiad penodol sy'n uwch na chyflogau sylfaenol sy'n cael eu talu ar draws Grŵp TrC i rai grwpiau o gyflogeion (e.e. comisiwn ar gyfer staff rheng flaen). Cyfanswm y tâl cysylltiedig â pherfformiad a dalwyd ar draws y grŵp yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2025/26 oedd £827,471, sydd, o'i ddefnyddio fel cyfartaledd ar draws yr holl gyflogeion yn unol â gofynion cyfrifo FReM, wedi gostwng 22% o'i gymharu â 2024/25 (£1,037,921). Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd, cyn mis Ebrill 2024, bod taliadau comisiwn Rheolwr Trên (goruchwyliwr) rheng flaen wedi cael eu gwneud bob chwe mis mewn ôl-daliadau, ac mae ffigur 2024/25 yn cynnwys £297,178 ar gyfer y comisiwn a enillwyd yn ystod 2023/24. Ers mis Ebrill 2024, mae taliadau'n cael eu gwneud bob 4 wythnos felly nid oes elfen ôl-daliadau sylweddol mwyach. Y tâl perfformiad cyfatebol ar gyfer 2024/25 yw £740,743.

Nid oes cynlluniau bonws ar gyfer uwch reolwyr.

# Pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw gynlluniau ymddeoliad cynnar na thaliad diswyddo yn 2025/26 na 2024/25, a dim ond cynlluniau ymadael unigol oedd ar waith. Ymddeoliadau oherwydd iechyd gwael oedd y rhan fwyaf o'r ymadawiadau. Mae hyn yn adlewyrchu proffil oedran ein gweithlu ac mae'n cyd-fynd â thaliadau contract ar gyfer afiechyd.

Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn ystod y flwyddyn (gyda'r llynedd fel cymhariaeth). Mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn y tabl yn cynrychioli cost unrhyw ymadawiad i TrC gan gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiynau, ond heb gynnwys elfennau tâl cytundebol safonol fel taliad yn lle rhybudd a balans gwyliau blynyddol cronedig.

**Tabl 13:** Pecynnau ymadael.

| Pecynnau ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm 2025/26 | Cyfanswm 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | – | 17 | 17 | 16 |
| £10,000 – £25,000 | – | 2 | 2 | 2 |
| £25,000 – £50,000 | – | 2 | 2 | 5 |
| £50,000 – £100,000 | – | 2 | 2 | – |
| £100,000 – £150,000 | – | 5 | 5 | – |
| £150,000 – £200,000 | – | – | – | – |
| £200,000 + | – | – | – | – |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael** | **–** | **28** | **28** | **23** |
| **Cyfanswm y gost £** | **–** | **919,988** | **919,988** | **261,344** |

# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae ein Cyfarwyddwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

## Cyfarwyddwyr

Dyma'r Cyfarwyddwyr a oedd yn dal swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn.

**Tabl 14:** Dyma'r Cyfarwyddwyr a oedd yn dal swydd yn ystod y flwyddyn hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn.

| Enw | Swydd |
|---|---|
| V J Everitt | Cadeirydd a Chyfarwyddwr Anweithredol (penodwyd yn Gadeirydd ar 17 Gorffennaf 2025. Cyfarwyddwr Anweithredol ers 30 Medi 2019) |
| V D Parmar | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| R L Langham | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| M A Sinfield | Cyfarwyddwr Anweithredol (penodwyd ar 2 Ionawr 2026) |
| P Strachan | Cyfarwyddwr Anweithredol (penodwyd ar 1 Awst 2025)* |
| J S Waddington | Cadeirydd a Chyfarwyddwr Anweithredol (ymddiswyddodd ar 17 Gorffennaf 2025) |
| D A Bowen | Cyfarwyddwr Anweithredol (ymddiswyddodd ar 31 Rhagfyr 2025) |
| L M Cheeseman | Cyfarwyddwr Anweithredol (ymddiswyddodd ar 13 Tachwedd 2025) |
| J R Price | Cyfarwyddwr Gweithredol |
| H J Clash | Cyfarwyddwr Gweithredol |

*Penodwyd P Strachan i Fwrdd TrC ym mis Awst 2025 ond, oherwydd mater gweinyddol, nid oedd ei benodiad i Dŷ'r Cwmnïau wedi'i gofrestru'n ffurfiol tan fis Chwefror 2026.

## Offerynnau ariannol

### Hylifedd a risg llif arian

Rydym yn monitro ein cyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ein rhwymedigaethau pan fyddan nhw'n ddyledus.

Mae gan y Grŵp ragfantoliad prisiau tanwydd i liniaru effaith amrywiadau ym mhris tanwydd a fyddai'n peri ansicrwydd fel arall i berfformiad ariannol y busnes. Ar hyn o bryd, mae gan y Grŵp nifer o drefniadau rhagfantoli ar waith sy'n para hyd at dair blynedd.

## Risg credyd

Nid ydym yn wynebu risg sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o weithgarwch y Grŵp naill ai'n cael ei ariannu drwy grantiau Llywodraeth Cymru a dderbynnir ymlaen llaw, drwy fasnachu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus neu drwy werthiannau arian parod i'r cyhoedd. Caiff ein risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

## Difidend arfaethedig

Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymell talu difidend. Bydd ein gwarged wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i ariannu ein gweithgareddau yn y dyfodol.

## Cyflogeion

Ceir gwybodaeth am amrywiaeth a chynhwysiant ar dudalen 34. Mae rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â chyflogeion ar gael yn y datganiad Adran 172 ar dudalen 41.

## Ymgysylltu â chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill mewn perthynas fusnes â'r Cwmni

Mae gwybodaeth am sut rydym yn ymgysylltu â'n cyflenwyr, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill wedi'i chynnwys yn ein datganiad Adran 172 ar dudalen 41.

## Adroddiadau ynni a charbon

Mae gwybodaeth am ein defnydd o ynni a'n camau gweithredu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad datgarboneiddio ar dudalen 46.

## Cyfraniadau gwleidyddol

Fel is-gwmni dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, nid oes gan TrC yr hawl i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol, ac oherwydd hynny nid ydym wedi rhoi unrhyw roddion gwleidyddol na derbyn unrhyw wariant gwleidyddol yn ystod y flwyddyn.

## Y drefn ar gyfer chwythu'r chwiban

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cydweithwyr yn cyrraedd ac yn cadw safonau uchel o ran ymddygiad yn y gwaith, gwasanaeth i'r cyhoedd, a'n holl arferion gwaith. Disgwylir i'n cyflogeion ymddwyn yn gywir, yn ddiduedd ac yn onest ac rydym yn ceisio datblygu diwylliant lle rydym yn herio ymddygiad annerbyniol ar bob lefel. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn annog pawb i roi gwybod am bryderon gwirioneddol am gamymarfer, gweithredoedd anghyfreithlon, neu achosion o fethu cydymffurfio â safonau gwaith cydnabyddedig, heb ofni y bydd neb yn gwneud cam â nhw nac yn eu cosbi am wneud hynny.

## Darpariaethau indemniad trydydd parti cymwys


Mae Grŵp TrC wedi rhoi indemniadau i'r graddau a ganiateir gan y gyfraith i rai Cyfarwyddwyr. Mae'r indemniadau hyn yn ymwneud â rhai colledion a rhwymedigaethau y gallent eu hwynebu wrth weithredu fel Cyfarwyddwr y Cwmni neu unrhyw un o'i gwmnïau cysylltiedig, a lle maent wedi gweithredu'n ddidwyll wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r indemniad yn cael ei gategoreiddio fel 'indemniad trydydd parti cymwys' at ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, a bydd yn parhau mewn grym er budd y Cyfarwyddwyr drwy gydol y flwyddyn ac ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

## Darparu gwybodaeth i'r archwilydd

Mae'r cyfarwyddwyr a oedd yn y swydd ar ddyddiad cymeradwyo adroddiad y cyfarwyddwyr yn cadarnhau, hyd y gŵyr pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd TrC yn gwybod amdani; ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwr i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Archwilydd

Yn unol ag Adran 487 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ystyrir y bydd yr archwilydd yn cael ei ailbenodi, ac felly bydd KPMG LLP yn parhau yn y swydd.



**J R Price** | Cyfarwyddwr
23 Mehefin 2026
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

# Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol

**Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a datganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni yn unol â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol.**

Yn ôl y gyfraith cwmnïau, rhaid i'n Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp a'r Rhiant-gwmni am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y Grŵp yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU a'r gyfraith berthnasol, ac wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a'r gyfraith berthnasol (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU), gan gynnwys Fframwaith Datgelu Gostyngol FRS 101.

O dan y gyfraith cwmnïau, rhaid i'n Cyfarwyddwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod wedi'u bodloni bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni yn ogystal â sefyllfa elw a cholled y Grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi pob un o ddatganiadau ariannol y Grŵp a'r Rhiant-gwmni, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas, a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol, yn berthnasol, yn ddibynadwy ac yn graff
- ar gyfer datganiadau ariannol y Grŵp, nodi a ydynt wedi cael eu paratoi yn unol â'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU
- ar gyfer datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni, datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol
- asesu gallu'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol a datgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol
- defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis realistig arall heblaw am hynny.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodiadau'r Rhiant-gwmni a datgelu sefyllfa ariannol y Rhiant-gwmni yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg, ac i'w galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent yn gyfrifol am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed nhw wedi eu gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol hefyd i gymryd camau o'r fath sydd, o fewn rheswm, ar gael iddynt er mwyn diogelu asedau'r Grŵp a rhwystro ac adnabod twyll ac achosion eraill o afreoleidd-dra.

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan y Cwmni, ac am gywirdeb yr wybodaeth honno. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

# DATGANIADAU ARIANNOL

# Adroddiad yr archwilydd annibynnol i aelodau Trafnidiaeth Cymru

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Trafnidiaeth Cymru ("y Cwmni") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, sy'n cynnwys y Datganiad Incwm Cyfunol, y Datganiad Cyfunol am y Sefyllfa Ariannol, Datganiad Cyfunol am Newidiadau mewn Ecwiti, y Datganiad Llif Arian Cyfunol, Datganiad y Cwmni am y Sefyllfa Ariannol, Datganiad y Cwmni am Newidiadau mewn Ecwiti a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2026 ac o ddiffyg y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi'u paratoi'n briodol, yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol mabwysiedig y DU;
- mae datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 101 – Fframwaith Datgelu Llai ; a
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

## Sail ein barn

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Mae ein cyfrifoldebau yn cael eu disgrifio isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU – gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol – ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â hynny fel y'i gweithredir i endidau eraill o ddiddordeb y cyhoedd. Rydym o'r farn bod y dystiolaeth archwilio rydym ni wedi ei chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

## Busnes gweithredol

Mae'r cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r Grŵp na'r Cwmni na dirwyn eu gweithrediadau i ben, a gan eu bod wedi dod i'r casgliad bod hyn yn realistig wrth ystyried sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Cwmni. Maent hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd o bwys a allai fwrw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am flwyddyn o leiaf, o'r dyddiad y cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo ("cyfnod busnes gweithredol").

Rydym wedi defnyddio ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant, a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i ganfod risgiau i'w fodel busnes ac wedi dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y grŵp a'r cwmni neu ar eu gallu i barhau i weithredu yn ystod y cyfnod busnes gweithredol. Yn ein barn ni, y risgiau a oedd yn fwyaf tebygol o gael effaith niweidiol ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Cwmni dros y cyfnod hwn oedd argaeledd cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Gan fod y Grŵp a'r Cwmni yn dibynnu ar gyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, fe wnaethom asesu'r risg na fyddai'r cymorth hwn ar gael. Roeddem wedi archwilio llythyrau a dderbyniwyd gan y cyfarwyddwyr yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cymorth hwn, wedi archwilio datganiadau ariannol i asesu ei allu i ddarparu'r cymorth hwn dros gyfnod asesiad busnes gweithredol yr endid a archwiliwyd, ac wedi asesu'r rhesymau busnes pam y gallai neu pam na allai'r grŵp ddewis darparu'r cymorth hwn.

Roeddem wedi ystyried a yw'r datgeliad busnes byw yn nodyn 1 i'r datganiadau ariannol yn rhoi disgrifiad llawn a chywir o asesiad y cyfarwyddwyr o'r busnes gweithredol, gan gynnwys y risgiau a'r dibyniaethau a nodwyd.

Mae ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym yn credu bod defnydd y cyfarwyddwyr o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- nid ydym wedi canfod, ac rydym yn cytuno ag asesiad y cyfarwyddwyr nad oes, ansicrwydd o bwys sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Cwmni i barhau fel busnes gweithredol yn ystod y cyfnod busnes gweithredol.

Fodd bynnag, gan na allwn ni ragweld yr holl ddigwyddiadau neu amodau yn y dyfodol, a gan y gallai digwyddiadau yn y dyfodol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barn a oedd yn rhesymol ar y pryd y rhoddwyd hi, nid yw'r canlyniadau uchod yn gwarantu y bydd y Grŵp neu'r Cwmni yn parhau i weithredu.

# Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau – y gallu i ganfod

## Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys o ganlyniad i dwyll

Er mwyn canfod risgiau o gamddatganiad o bwys o ganlyniad i dwyll ("risgiau twyll") rydym wedi asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi'r cyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac archwilio dogfennau polisi ynghylch polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i ganfod unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl.

Rydym wedi rhoi gwybod i'r tîm archwilio am y risgiau o dwyll a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll yn ystod yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau, yn enwedig y risg y gallai tîm rheoli'r Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol a'r risg fod rhagfarn mewn amcangyfrifon cyfrifyddu a dyfarniadau fel ailbrisio asedau. Yn yr archwiliad hwn, nid ydym o'r farn bod risg o dwyll sy'n gysylltiedig â chydnabod refeniw oherwydd y meini prawf cydnabod refeniw nad ydynt yn gymhleth, sy'n cyfyngu ar y cyfle i gam-drafod refeniw yn dwyllodrus.

Ni ddaethom o hyd i unrhyw risgiau ychwanegol o ran twyll.

Rydym wedi cynnal gweithdrefnau gan gynnwys:

- Canfod cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill i'w profi ar sail meini prawf risg a chymharu'r cofnodion a ganfuwyd â dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion dyddlyfrau â nodweddion anarferol o'u cymharu â chyfanswm poblogaeth y dyddlyfrau.
- Asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl.

## Canfod ac ymateb i risgiau o gamddatganiadau o bwys mewn perthynas â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau

Roeddem wedi nodi meysydd o gyfreithiau a rheoliadau y gallai fod yn rhesymol disgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol cyffredinol a'n profiad o'r sector, a thrwy drafod â'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol dan y safonau archwilio), ac o arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol y Grŵp a thrafod gyda'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

Rydym wedi rhoi gwybod i'n tîm am y cyfreithiau a'r rheoliadau a ganfuwyd, ac rydym wedi parhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiad yn ystod yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (gan gynnwys deddfwriaeth cwmnïau cysylltiedig), deddfwriaeth elw y dosbarthir, deddfwriaeth trethu a deddfwriaeth pensiwn, ac rydym wedi asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau'r datganiad ariannol cysylltiedig.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o ddeddfau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft drwy roi dirwyon neu ymgyfreitha. Roeddem wedi nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: iechyd a diogelwch, cyfreithiau diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyfraith cyflogaeth, rheoliadau sy'n berthnasol i gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru, deddfwriaeth sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, a rhai agweddau ar ddeddfwriaeth cwmnïau.

Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i ganfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai. Felly, os na fydd torri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni neu'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y tor-amod hwnnw.

### Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfraith neu reoliad

Oherwydd y cyfyngiadau sylfaenol sy'n gysylltiedig ag archwiliad, mae risg anochel na fyddwn wedi dod o hyd i rai achosion o gamddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol y byddai'r gweithdrefnau cyfyngedig cynhenid sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn ei nodi.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o beidio â dod o hyd i dwyll, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, anwiredd neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi eu cynllunio i ddod o hyd i gamddatganiadau perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio na thwyll ac ni ellir disgwyl i ni ddod o hyd i achosion o beidio â chydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am yr wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr adroddiad Strategol, adroddiad y Cyfarwyddwr ac adroddiadau Llywodraethu. Nid yw ein barn ni am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall a, gan hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio amdanynt.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried – ar sail ein gwaith archwilio ar y datganiadau ariannol – a yw'r wybodaeth ynddynt yn cael ei cham-ddatgan yn sylweddol, neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio ni. Ar sail y gwaith hwnnw'n unig:

- nid ydym wedi dod o hyd i gamddatganiadau o bwys yn y wybodaeth arall;
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn yr adroddiad Strategol ac adroddiad y Cyfarwyddwr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol; ac
- mae'r adroddiadau hynny wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Cwmnïau 2006 yn ein barn ni.

## Materion y mae'n rhaid i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006, mae'n rhaid i ni roi gwybod i chi os ydym yn credu bod y canlynol yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw gan y Rhiant-gwmni, neu nid oes ffurflenni perthnasol i'n harchwiliad wedi cael eu cyflwyno gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw datganiadau ariannol y Rhiant-gwmni yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw rhai o daliadau'r cyfarwyddwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu
- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

# Cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel mae datganiad y cyfarwyddwyr ar dudalen 71, yn ei egluro'n fanylach, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am y canlynol: paratoi'r datganiadau ariannol, a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg; y gwaith rheoli mewnol sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd ddim yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r Grŵp neu'r Rhiant-gwmni i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â bod yn fusnes gweithredol; a defnyddio sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifyddu, oni bai eu bod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Rhiant-gwmni neu roi'r gorau i weithredu, neu os nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.


# Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiadau o bwys, boed nhw wedi eu gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a rhoi ein barn ni ar ffurf adroddiad yr archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Mae camddatganiadau'n gallu codi yn sgil twyll neu gamgymeriad, ac maent yn cael eu hystyried yn rhai o bwys os byddai'n rhesymol disgwyl iddynt – yn unigol neu gyda'i gilydd – ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol.

Mae disgrifiad mwy cyflawn o'n cyfrifoldebau ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

# Pwrpas ein gwaith archwilio, ac i bwy mae gennym gyfrifoldebau

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r Cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd, ac i ddim pwrpas arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb, ac eithrio i'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.



**Rees Batley (Uwch-archwilydd Statudol)**
**ar ran ac yn enw KPMG LLP, Archwilydd Statudol**
Cyfrifwyr Siartredig
66 Sgwâr y Frenhines
Bryste
BS1 4BE

25 Mehefin 2026

# Datganiad Incwm Cyfunol

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| Disgrifiad | Nodyn | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | 2 | **875,831** | 807,557 |
| Treuliau gweinyddol | - | **(877,556)** | (827,456) |
| **Gwarged/(diffyg) gweithredol** | - | **(1,725)** | (19,899) |
| Incwm cyllid | 6 | **210** | 13 |
| Treuliau cyllid | 6 | **(16,696)** | (13,947) |
| **Incwm ariannu net/(traul)** | - | **(16,486)** | (13,934) |
| **Gwarged/(diffyg) cyn treth** | - | **(18,211)** | (33,833) |
| Credyd treth/(tâl) | 7 | **1,452** | 1,571 |
| **Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn** | - | **(16,759)** | (32,262) |
| | | | |
| **Datganiad o Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | |
| *Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled:* | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **325,296** | (42,621) |
| Ailfesur rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig | 18 | **148** | 245 |
| Treth llac | 7 | **836** | - |
| Cyfanswm eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i elw neu golled | - | **326,280** | (42,376) |
| | | | |
| *Eitemau y gellid eu hailgategoreiddio wedyn i elw neu golled:* | | | |
| Cyfran effeithiol o newidiadau i werth teg cronfeydd ymddiogelu llif arian | 19 | **8,781** | (3,813) |
| Treth gysylltiedig | 7 | **(2,195)** | 68 |
| Cyfanswm eitemau a allai gael eu hailddosbarthu i elw neu golled | - | **6,586** | (3,745) |
| **Incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn, net treth** | - | **332,866** | (46,121) |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | - | **316,107** | (78,383) |

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 128 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol

Ar 31 Mawrth 2026

| Disgrifiad | Nodyn | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **4,549,024** | 4,088,180 |
| Asedau anniriaethol | 9 | **1,069** | 3,768 |
| Ewyllys da | 9 | **3,546** | 3,546 |
| Asedau ariannol anghyfredol | 19 | **952** | - |
| Buddion i gyflogeion | 18 | **403** | 202 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | - | **4,554,994** | 4,095,696 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Rhestrau | 11 | **13,400** | 12,409 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **137,802** | 138,154 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 13 | **64,818** | 39,634 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | - | **216,020** | 190,197 |
| **Cyfanswm yr asedau** | - | **4,771,014** | 4,285,893 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 14 | **196,165** | 178,133 |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 20 | **54,269** | 61,178 |
| Darpariaethau | 15 | **384** | 341 |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | - | **250,818** | 239,652 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 14 | **7,700** | 7,700 |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 20 | **467,415** | 459,419 |
| Grantiau cyfalaf wedi'u gohirio | 17 | **2,322,586** | 2,176,769 |
| Darpariaethau | 15 | **6,885** | 2,850 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | - | **2,804,586** | 2,646,738 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau** | - | **3,055,404** | 2,886,390 |
| **Asedau net** | - | **1,715,610** | 1,399,503 |

# Datganiad sefyllfa ariannol cyfunol (parhad)

Ar 31 Mawrth 2026

| Disgrifiad | Nodyn | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|---|
| **Ecwiti** | | | |
| Gwarged wrth gefn | - | **8,093** | 4,383 |
| Cronfa cyfraniad cyfalaf wrth gefn | - | **11,097** | 11,097 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | - | **1,693,409** | 1,387,598 |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer ymddiogelu | - | **3,011** | (3,575) |
| **Cyfanswm ecwiti** | - | **1,715,610** | 1,399,503 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 23 Mehefin 2026 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



**J R Price** | Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

# Datganiad cyfunol am newidiadau mewn ecwiti

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| Disgrifiad | Gwarged wrth gefn £000 | Cronfa cyfraniad cyfalaf wrth gefn £000 | Cronfa ailbrisio wrth gefn £000 | Cronfa wrth gefn ar gyfer ymddiogelu £000 | Cyfanswm ecwiti £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 9,872 | 11,097 | 1,456,747 | 170 | 1,477,886 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | | |
| Diffyg | (32,262) | - | - | - | (32,262) |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | - | (42,621) | - | (42,621) |
| Ailfesur rhwymedigaeth/asedau buddion diffiniedig | 245 | - | - | - | 245 |
| Cyfran effeithiol o newidiadau i werth teg cronfeydd ymddiogelu llif arian | - | - | - | (3,813) | (3,813) |
| Treth ar incwm cynhwysfawr arall | - | - | - | 68 | 68 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | **(32,017)** | **-** | **(42,621)** | **(3,745)** | **(78,383)** |
| Trosglwyddiad o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gwarged wrth gefn | 26,528 | - | (26,528) | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **4,383** | **11,097** | **1,387,598** | **(3,575)** | **1,399,503** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2025** | 4,383 | 11,097 | 1,387,598 | (3,575) | 1,399,503 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | | |
| Diffyg | (16,759) | - | - | - | (16,759) |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | - | 325,296 | - | 325,296 |
| Ailfesur rhwymedigaeth/asedau buddion diffiniedig | 148 | - | - | - | 148 |
| Cyfran effeithiol o newidiadau i werth teg cronfeydd ymddiogelu llif arian | - | - | - | 8,781 | 8,781 |
| Treth ar incwm cynhwysfawr arall | 836 | - | - | (2,195) | (1,359) |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | **(15,775)** | **-** | **325,296** | **6,586** | **316,107** |
| Trosglwyddiad o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gwarged wrth gefn | 19,485 | - | (19,485) | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **8,093** | **11,097** | **1,693,409** | **3,011** | **1,715,610** |

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

# Datganiad cyfun o lifoedd arian

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| Disgrifiad | Nodyn | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn | - | (16,759) | (32,262) |
| *Addasiadau ar gyfer:* | | | |
| Dibrisiant, amorteiddiad, amhariad ac elw/colled wrth waredu | 8 a 9 | 169,280 | 154,223 |
| Colled ar waredu asedau sefydlog | 8 | 362 | - |
| Rhyddhau grantiau'r llywodraeth sydd wedi'u gohirio | - | (90,745) | (61,042) |
| Costau cyllido net | - | 16,486 | 13,934 |
| Trethiant | 7 | (1,452) | (1,571) |
| (Cynnydd)/gostyngiad yn y stocrestr | 11 | (1,155) | 2,449 |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | (5,332) | (17,417) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 14 | (1,432) | (30,312) |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau a buddion i gyflogeion | 15 | 3,877 | 627 |
| Treth a dderbyniwyd/(talwyd) | 7 | - | 79 |
| **Arian net o weithgareddau gweithredol** | - | **73,130** | **28,708** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 8 | (222,795) | (296,565) |
| Enillion o waredu eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 5 | 22 |
| Caffael asedau anniriaethol | - | - | 7 |
| Enillion ar ôl derbyn grantiau cyfalaf y llywodraeth | 17 | 254,566 | 321,455 |
| Enillion ar ôl derbyn grantiau trydydd parti | - | 219 | 1,090 |
| Llog a dderbyniwyd | - | 234 | 13 |
| **Arian net o weithgareddau buddsoddi** | - | **32,229** | **26,022** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | | |
| Derbyn benthyciad gan riant | - | - | 7,700 |
| Ad-dalu benthyciad i'r rhiant-gwmni | - | (6,000) | - |
| Llog a dalwyd | - | (1,085) | (423) |
| Talu rhwymedigaethau les | - | (73,090) | (64,490) |
| **Arian net o weithgareddau ariannu** | - | **(80,175)** | **(57,213)** |
| Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | - | 25,184 | (2,483) |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar 1 Ebrill | - | 39,634 | 42,117 |
| **Arian ac eitemau sy'n cyfateb i arian ar 31 Mawrth** | - | **64,818** | **39,634** |

# Datganiad y cwmni o sefyllfa ariannol

Ar 31 Mawrth 2026

| Disgrifiad | Nodyn | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | **3,725,013** | 3,287,994 |
| Asedau anniriaethol | 9 | **1,069** | 1,919 |
| Buddsoddiadau | 10 | **11,097** | 11,097 |
| Buddion i gyflogeion | 18 | **403** | 202 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | - | **3,737,582** | **3,301,212** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Rhestrau | 11 | **44** | 41 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 12 | **90,474** | 95,899 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 13 | **21,940** | 14,566 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | - | **112,458** | 110,506 |
| **Cyfanswm yr asedau** | - | **3,850,040** | 3,411,718 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 14 | **106,203** | 104,242 |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 20 | **1,302** | 1,017 |
| Darpariaethau | 15 | **384** | 341 |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | - | **107,889** | 105,600 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Rhwymedigaethau lesoedd | 20 | **8,991** | 9,596 |
| Grantiau cyfalaf wedi'u gohirio | 17 | **2,011,472** | 1,887,860 |
| Darpariaethau | 15 | **3,043** | 2,850 |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | - | **2,023,506** | 1,900,306 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau** | - | **2,131,395** | 2,005,906 |
| **Asedau net** | - | **1,718,645** | 1,405,812 |
| **Ecwiti** | | | |
| Gwarged wrth gefn | - | **14,139** | 7,117 |
| Cronfa cyfraniad cyfalaf wrth gefn | - | **11,097** | 11,097 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | - | **1,693,409** | 1,387,598 |
| **Cyfanswm ecwiti** | - | **1,718,645** | 1,405,812 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol hyn gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 23 Mehefin 2026 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:

**J R Price** | Cyfarwyddwr
Rhif cofrestru'r cwmni: 9476013

# Datganiad y cwmni o newidiadau mewn ecwiti

Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026

| Disgrifiad | Gwarged wrth gefn £000 | Cronfa cyfraniad cyfalaf wrth gefn £000 | Cronfa ailbrisio wrth gefn £000 | Cyfanswm ecwiti £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 6,720 | 11,097 | 1,456,747 | 1,474,564 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | |
| Diffyg | (26,376) | - | - | (26,376) |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | - | (42,621) | (42,621) |
| Ailfesur rhwymedigaeth/asedau buddion diffiniedig | 245 | - | - | 245 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | **(26,131)** | **-** | **(42,621)** | **(68,752)** |
| Trosglwyddiad o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gwarged wrth gefn | 26,528 | - | (26,528) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **7,117** | **11,097** | **1,387,598** | **1,405,812** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2025** | 7,117 | 11,097 | 1,387,598 | 1,405,812 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | | | | |
| Diffyg | (12,612) | - | - | (12,612) |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | | |
| Ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | - | - | 325,297 | 325,297 |
| Ailfesur rhwymedigaeth/asedau buddion diffiniedig | 148 | - | - | 148 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | **(12,464)** | **-** | **325,297** | **312,833** |
| Trosglwyddiad o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gwarged wrth gefn | 19,486 | - | (19,486) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **14,139** | **11,097** | **1,693,409** | **1,718,645** |

Priodolir yr holl incwm cynhwysfawr i ddeiliad ecwiti Trafnidiaeth Cymru.

# Nodiadau

Mae Trafnidiaeth Cymru ("y Cwmni") yn gwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi'i gorffori a'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr yn y DU ac sydd â'i ddomisil yno. Y rhif cofrestredig yw 09476013 a'r cyfeiriad cofrestredig yw 3 Llys Cadwyn, Stryd Taf, Pontypridd CF37 4TH. Mae'r Cwmni yn is-gwmni sy'n dod o dan reolaeth lwyr Gweinidogion Cymru (corff a ddiffinnir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) ac oherwydd hyn ystyrir Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig.

## 1. Polisïau cyfrifyddu

### Y sail ar gyfer paratoi

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a'i is-gwmnïau (gyda'i gilydd "y grŵp" neu "TrC") wedi cael eu paratoi a'u cymeradwyo gan y cyfarwyddwyr yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU ("IFRS").

Mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Safon Adrodd Ariannol 101, Fframwaith Datgelu Llai ("FRS 101"). Mae'r rhiant-gwmni wedi cymhwyso'r esemptiadau sydd ar gael o dan FRS 101 mewn perthynas â'r datgeliadau canlynol:

- Datganiad llif arian a nodiadau cysylltiedig
- Rhai datgeliadau o ran refeniw
- Datgeliadau mewn perthynas â thrafodion gydag is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr
- Datgeliadau mewn perthynas â rheoli cyfalaf
- Rhai datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 3 Cyfuniadau Busnes mewn perthynas â chyfuniadau busnes a gyflawnir gan y Cwmni; a
- Rhai datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 13 Mesur Gwerth Teg a'r datgeliadau sy'n ofynnol dan IFRS 7 Datgeliadau Offeryn Ariannol.

Paratoir y datganiadau ariannol ar sail cost hanesyddol ac eithrio ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ac asedau a rhwymedigaethau ariannol penodol (gan gynnwys deilliadau) wedi'u mesur yn ôl gwerth teg.

Oni nodir yn wahanol, mae'r polisïau cyfrifyddu isod wedi cael eu cymhwyso'n gyson i bob cyfnod a gyflwynir yn y datganiadau ariannol hyn.

### Canlyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol

Fel y caniateir gan adran 408 Deddf Cwmnïau 2006, nid yw'r Cwmni wedi cyflwyno ei gyfrif elw a cholled ei hun ar gyfer y flwyddyn.

Roedd y diffyg ar gyfer y flwyddyn ariannol y gellir ei briodoli i'r Cwmni yn £12,612,000 (2025: £26,376,000).

## IFRS sydd newydd eu mabwysiadu ac IFRS a gyhoeddwyd ond nad ydynt wedi eu cymhwyso eto

Mae Diffyg Cyfnewidiadwyedd – Diwygiadau i IAS 21 Effeithiau Newidiadau mewn Cyfraddau Cyfnewid Arian Tramor, yn weithredol am gyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2025 neu ar ôl hynny, ond nid yw'n effeithio ar ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Nid yw'r Grŵp wedi mabwysiadu'n gynnar unrhyw safon, dehongliad na diwygiad arall a gyhoeddwyd ond nad yw'n effeithiol eto. Mae IFRS 18 Cyflwyno a Datgelu mewn Datganiadau Ariannol yn weithredol am gyfnodau sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2027 neu ar ôl hynny a byddant yn cael eu rhoi ar waith yn ôl-weithredol o'r dyddiad hwn ymlaen. Nid oes disgwyl i IFRSs eraill a fabwysiadwyd yn y DU, nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto, gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol.

## Busnes gweithredol

Ar adeg cymeradwyo'r datganiadau ariannol, roedd gan gyfarwyddwyr y Cwmni ddisgwyliad rhesymol (yn seiliedig ar y sicrwydd a nodir isod) y bydd gan TrC gyllid digonol wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei gylch gwaith gweithredol ac i barhau mewn bodolaeth weithredol yn y dyfodol am y cyfnod busnes gweithredol am o leiaf 12 mis o ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llythyr cylch gwaith i TrC, sy'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer TrC yn ystod tymor presennol y llywodraeth hyd 2026. Mae TrC hefyd yn cael llythyr cyllido blynyddol, ac mae'r diweddaraf yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2027.

- Mae Sefyllfa 2 yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (fel arfer 45%) yn cynyddu neu'n gostwng 10 pwynt canran; h.y. addasiad iawndal o 35% neu 55% yn y drefn honno.
- Mae Sefyllfa 3 yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a ddefnyddiwyd ar gyfer y prisiadau DRC cyffredinol, 42.6% ar hyn o bryd, gyda chynnydd neu ostyngiad o 10 pwynt canran, gan ddangos ffactorau risg o 52.6% a 32.6% i bob pwrpas.

| Math | Cost amnewid wedi'i ddibrisio (-) £m | Cost amnewid wedi'i ddibrisio £m | Cost amnewid wedi'i ddibrisio (+) £m |
|---|---|---|---|
| **Gwerth sylfaenol** | - | 3,396 | - |
| **Sefyllfa 1** | (276) | - | 216 |
| **Sefyllfa 2** | (44) | - | 44 |
| **Sefyllfa 3** | (194) | - | 194 |

Mae'r model yn cymhwyso mynegeio blynyddol i gyfraddau unedau nad ydynt wedi cael eu hadnewyddu'n llawn yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer pob categori asedau ac eithrio tir, y mynegai a ddefnyddiwyd yw mynegai prisiau defnyddwyr (CPI). Mae tir yn cael ei ailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio'r cyfraddau tir diweddaraf sydd ar gael gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio, gyda mynegeio'n cael ei gymhwyso gan ddefnyddio mynegai prisiau defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH) ar gyfer unrhyw fwlch rhwng data Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r dyddiad diwedd blwyddyn.

## Asedau hawl i ddefnyddio lesoedd

Ar 31 Mawrth 2026, mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys asedau hawl i ddefnyddio lesoedd a gydnabyddir o dan IFRS 16 fel a ganlyn:

| Disgrifiad | Tir ac adeiladau £000 | Cerbydau £000 | Arall £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| Grŵp | 34,291 | 497,492 | 406 | 532,189 |
| Cwmni | 29,959 | - | - | 29,959 |

## Cysoni â'r datganiad grŵp o lifoedd arian

| Disgrifiad | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|
| Ychwanegiadau diriaethol (nodyn 8) | **330,193** | 429,912 |
| Symudiad mewn credydwyr cyfalaf | **(13,282)** | 15,327 |
| Cydnabod darpariaeth dadfeiliadau | **3,821** | 541 |
| Prydles asedau hawl i ddefnyddio a gyfalafwyd | **(97,936)** | (149,214) |
| **Taliadau i gaffael asedau cyfalaf fesul datganiad llif arian** | **222,796** | 296,565 |

# 9. Asedau anniriaethol

## Grŵp

| Disgrifiad | Ewyllys da £000 | Cysylltiadau cwsmeriaid £000 | Modelau Data £000 | Trwyddedau Meddalwedd ac Eiddo Deallusol £000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (AUC) £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 3,546 | 2,367 | 3,137 | 13,481 | 85 | 22,616 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | (7) | (7) |
| Trosglwyddiadau o'r AUC | - | - | - | 78 | (78) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **3,546** | **2,367** | **3,137** | **13,559** | **-** | **22,609** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2025** | 3,546 | 2,367 | 3,137 | 13,559 | - | 22,609 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r AUC | - | - | - | - | - | - |
| Gwarediadau | - | - | - | (10,000) | - | (10,000) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **3,546** | **2,367** | **3,137** | **3,559** | **-** | **12,609** |
| **Amorteiddiad ac amhariad** | | | | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | - | 1,868 | 1,569 | 8,586 | - | 12,023 |
| Amorteiddiad ar gyfer y flwyddyn | - | 365 | 523 | 2,384 | - | 3,272 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **-** | **2,233** | **2,092** | **10,970** | **-** | **15,295** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2025** | - | 2,233 | 2,092 | 10,970 | - | 15,295 |
| Amorteiddiad ar gyfer y flwyddyn | - | 134 | 523 | 2,042 | - | 2,699 |
| Gwarediadau | - | - | - | (10,000) | - | (10,000) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **-** | **2,367** | **2,615** | **3,012** | **-** | **7,994** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 3,546 | 499 | 1,568 | 4,895 | 85 | 10,593 |
| Ar 31 Mawrth 2025 ac 1 Ebrill 2025 | 3,546 | 134 | 1,045 | 2,589 | - | 7,314 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **3,546** | **-** | **522** | **547** | **-** | **4,615** |

## Cwmni

| Disgrifiad | Modelau Data £000 | Trwyddedau Meddalwedd ac Eiddo Deallusol £000 | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (AUC) £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 3,137 | 1,537 | 85 | 4,759 |
| Ychwanegiadau | - | - | (7) | (7) |
| Amhariadau | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r AUC | - | 78 | (78) | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **3,137** | **1,615** | **-** | **4,752** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2025** | 3,137 | 1,615 | - | 4,752 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau o'r AUC | - | - | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **3,137** | **1,615** | **-** | **4,752** |
| **Amorteiddiad ac amhariad** | | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 1,569 | 428 | - | 1,997 |
| Amorteiddiad ar gyfer y flwyddyn | 523 | 313 | - | 836 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **2,092** | **741** | **-** | **2,833** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2025** | 2,092 | 741 | - | 2,833 |
| Amorteiddiad ar gyfer y flwyddyn | 521 | 329 | - | 850 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **2,613** | **1,070** | **-** | **3,683** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 1,568 | 1,109 | 85 | 2,762 |
| Ar 31 Mawrth 2025 ac 1 Ebrill 2025 | 1,045 | 874 | - | 1,919 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **524** | **545** | **-** | **1,069** |

Mae'r balansau ewyllys da a chysylltiadau â chwsmeriaid yn ymwneud â chaffael Pullman Rail Limited yn 2021/22. Mae'r Grŵp yn profi ewyllys da bob blwyddyn ar gyfer dangosyddion amhariad – nid oes unrhyw ddangosyddion amhariad ar ddyddiad y fantolen.

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys prynu data allanol a datblygiad mewnol sy'n ymwneud â modelau data trafnidiaeth Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal â datblygu modelau meddalwedd a data sy'n ymwneud â phrosiectau diwygio bysiau, ac amrediad o drwyddedau eiddo deallusol yn ymwneud â rheilffyrdd a darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus arall. Mae'r cydbwysedd grŵp ehangach hefyd yn cynnwys y trwyddedau ar gyfer mynediad at feddalwedd ac eiddo deallusol arall sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith.

# 10. Buddsoddiadau

Mae'r Cwmni yn gyfranddaliwr 100% yn y cwmnïau canlynol:

- **Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig.** Cafodd y cwmni hwn ei ymgorffori ar 26 Mai 2020 gyda buddsoddiad o £1.
- **Pullman Rail Limited.** Prynwyd y cwmni hwn ar 8 Awst 2021 gyda buddsoddiad o £11,097,000.
- **Rheolwr Seilwaith Cymru Dewis Olaf Cyfyngedig.** Cafodd y cwmni hwn ei ymgorffori ar 18 Medi 2019 gyda buddsoddiad o £1. Mae'r cwmni'n segur ar hyn o bryd.
- **Ffeibr TrC Cyf.** Cafodd y cwmni hwn ei ymgorffori ar 7 Chwefror 2024 gyda buddsoddiad o £1.

Mae'r Cwmni hefyd yn gyfranddaliwr 51% yn Gwasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig.

Mae'r holl gwmnïau uchod wedi'u cofrestru yng Nghymru a Lloegr ac mae ganddynt yr un cyfeiriad cofrestredig â Trafnidiaeth Cymru ac mae'r cyfan wedi'u cyfuno yn y set hon o ddatganiadau ariannol.

Mae TrC hefyd yn dal 33% o'r cyfranddaliadau yn Cardiff Interchange Manco Limited am fuddsoddiad o £33. Mae'r cwmni hwn yn segur gydag asedau net o £99 ac nid oes ganddo elw na cholled ar ôl caffael.

Ar gyfer yr holl gyfranddaliadau uchod, mae TrC yn dal y ganran a nodir ym mhob dosbarth o gyfranddaliadau a hawliau pleidleisio.

## Cwmni

| Disgrifiad | Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau £000 |
|---|---|
| **Cost a gwerth net ar y llyfrau** | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 11,097 |
| Ychwanegiadau | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | **11,097** |
| Balans ar 1 Ebrill 2025 | 11,097 |
| Ychwanegiadau | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | **11,097** |

# 11. Rhestrau

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau crai a defnyddiau traul | **13,356** | 12,368 | **-** | - |
| Nwyddau gorffenedig | **44** | 41 | **44** | 41 |
| **Cyfanswm** | **13,400** | 12,409 | **44** | 41 |

# 12. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Symiau masnach derbyniadwy | **41,812** | 48,947 | **6,743** | 5,635 |
| Symiau derbyniadwy sy'n ddyledus gan gwmnïau rhiant a grwpiau eraill | **3,052** | 2,982 | **22,799** | 21,505 |
| Asedau contract (incwm cronnus) | **11,853** | 6,595 | **4,193** | 951 |
| Cyllid cronedig – grant cyfalaf craidd Llywodraeth Cymru | **28,699** | 37,876 | **28,699** | 37,876 |
| Symiau derbyniadwy eraill | **26,915** | 18,675 | **25,704** | 26,922 |
| Rhagdaliadau | **21,002** | 23,077 | **2,336** | 3,010 |
| Treth ohiriedig (Nodyn 16) | **103** | - | **-** | - |
| Asedau offerynnau ariannol sy'n deilliadol (Nodyn 19) | **4,366** | 2 | **-** | - |
| **Cyfanswm** | **137,802** | 138,154 | **90,474** | 95,899 |

# 13. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Arian ac eitemau sy'n cyfateb i arian fesul datganiad am y sefyllfa ariannol | **64,818** | 39,634 | **21,940** | 14,566 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod fesul datganiad am y llifoedd arian | **64,818** | 39,634 | **-** | - |

# 14. Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | | | |
| Symiau masnach taladwy | **23,751** | 28,945 | **1,657** | 7,093 |
| Symiau taladwy sy'n ddyledus i gwmnïau rhiant a chwmnïau grŵp eraill | **1,371** | 9,096 | **1,142** | 7,953 |
| Symiau taladwy eraill drwy fasnach | **3,065** | 2,974 | **1,982** | 792 |
| Treuliau cronnus | **145,947** | 120,970 | **86,513** | 82,834 |
| Incwm gohiriedig – grant refeniw craidd | **10,652** | 578 | **10,652** | 578 |
| Incwm gohiriedig – trydydd parti | **4,357** | 4,019 | **3,042** | 3,078 |
| Nawdd cymdeithasol a mathau eraill o drethiant | **6,910** | 7,944 | **1,215** | 1,914 |
| Treth ohiriedig (Nodyn 16) | **-** | 30 | **-** | - |
| Rhwymedigaethau offerynnau ariannol deilliadol (Nodyn 19) | **112** | 3,577 | **-** | - |
| Cyfanswm symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | **196,165** | 178,133 | **106,203** | 104,242 |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | | | |
| Symiau taladwy sy'n ddyledus i gwmnïau rhiant a chwmnïau grŵp eraill | **7,700** | 7,700 | **-** | - |
| Cyfanswm symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | **7,700** | 7,700 | **-** | - |
| **Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill** | **203,865** | 185,833 | **106,203** | 104,242 |

Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y Cwmni fenthyciad rhyng-gwmni o £0.9m (2025: £6.9m) gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chaffael Pullman Rail Limited ym mis Awst 2021. Mae'r cytundeb yn pennu cyfradd llog "cyfradd sylfaenol Banc Lloegr a 4%" a thelerau ad-dalu "fel y cytunwyd rhwng y partïon o bryd i'w gilydd". Gan fod y benthyciad yn dechnegol ad-daladwy ar gais, mae'r benthyciad wedi'i ddosbarthu fel benthyciad tymor byr.

Ar ben hynny, ym mis Medi 2024 roedd Ffeibr TrC wedi ymrwymo i fenthyciad o £7.7m gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfalaf gweithio ac i gefnogi'r gwaith o roi'r Cwmni ar waith. Mae'r cytundeb yn nodi cyfradd llog o 7% y flwyddyn ac i ad-daliadau gael eu gwneud yn flynyddol rhwng 2033 a 2038. Felly, mae'r benthyciad hwn yn cael ei ystyried yn un hirdymor.

# 15. Darpariaethau

## Grŵp

### Symudiad mewn darpariaethau

| Disgrifiad | Hunan-yswiriant CVL £000 | Dirywiadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 341 | 2,850 | 3,191 |
| Newid mewn amcangyfrif | 1,040 | 3,821 | 4,861 |
| Defnyddio darpariaethau | (997) | - | (997) |
| Datod disgownt ar ddarpariaethau | - | 214 | 214 |
| Balans terfynol | **384** | **6,885** | **7,269** |

### Amseriad llifoedd arian disgwyliedig

| Disgrifiad | Hunan-yswiriant CVL £000 | Dirywiadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 384 | - | 384 |
| Mwy na phum mlynedd | - | 6,885 | 6,885 |
| **Cyfanswm** | **384** | **6,885** | **7,269** |

## Cwmni

### Symudiad mewn darpariaethau

| Disgrifiad | Hunan-yswiriant CVL £000 | Dirywiadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 341 | 2,850 | 3,191 |
| Newid mewn amcangyfrif | 1,040 | (21) | 1,019 |
| Defnyddio darpariaethau | (997) | - | (997) |
| Datod disgownt ar ddarpariaethau | - | 214 | 214 |
| **Balans terfynol** | **384** | **3,043** | **3,427** |

### Amseriad llifoedd arian disgwyliedig

| Disgrifiad | Hunan-yswiriant CVL £000 | Dirywiadau £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 384 | - | 384 |
| Mwy na phum mlynedd | - | 3,043 | 3,043 |
| **Cyfanswm** | **384** | **3,043** | **3,427** |

# 16. Treth ohiriedig – Grŵp

Mae'r rhwymedigaeth/(ased) treth ohiriedig yn cynnwys y balansau isod. Mae'r gymhariaeth yn y nodyn hwn wedi cael ei haddasu i gyflwyno rhwymedigaethau ac asedau hawl i ddefnyddio IFRS 16 ar wahân yn unol â diwygiadau IAS 12 ar dreth ohiriedig.

| Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2024 £000 | Symudiad mewn OCI £000 | Symudiad mewn datganiad incwm £000 | Balans ar 31 Mawrth 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 67,011 | - | (450) | 66,561 |
| Asedau hawl i ddefnyddio les IFRS 16 | 125,785 | - | 32 | 125,817 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Rhagfantoli tanwydd | 68 | (68) | - | - |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | |
| Darpariaethau tymor byr | - | - | (32) | (32) |
| Grantiau cyfalaf wedi'u gohirio | (65,291) | - | - | (65,291) |
| Rhwymedigaethau pensiwn | (7) | - | 2 | (5) |
| Rhwymedigaethau hawl i ddefnyddio les IFRS 16 | (125,785) | - | (32) | (125,817) |
| Colledion treth | (138) | - | (1,065) | (1,203) |
| **Cyfanswm** | **1,643** | **(68)** | **(1,545)** | **30** |

| Disgrifiad | Balans ar 1 Ebrill 2025 £000 | Symudiad mewn OCI £000 | Symudiad mewn datganiad incwm £000 | Balans ar 31 Mawrth 2026 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 66,561 | (836) | 12,080 | 77,805 |
| Asedau hawl i ddefnyddio les IFRS 16 | 125,817 | - | (88,295) | 37,522 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Rhagfantoli tanwydd | - | 2,195 | (877) | 1,318 |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | | |
| Darpariaethau tymor byr | (32) | - | 28 | (4) |
| Grantiau cyfalaf wedi'u gohirio | (65,291) | - | (12,488) | (77,779) |
| Rhwymedigaethau pensiwn | (5) | - | 6 | 1 |
| Taliadau heb eu talu | - | - | (201) | (201) |
| Rhwymedigaethau hawl i ddefnyddio les IFRS 16 | (125,817) | - | 88,295 | (37,522) |
| Colledion treth | (1,203) | - | (40) | (1,243) |
| **Cyfanswm** | **30** | **1,359** | **(1,492)** | **(103)** |

# 17. Grantiau cyfalaf wedi'u gohirio

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **2,176,769** | 1,957,602 | **1,887,860** | 1,693,701 |
| Ychwanegiadau | **236,562** | 280,209 | **189,665** | 234,812 |
| Rhyddhau yn unol â dibrisiant/amhariad asedau | **(90,745)** | (61,042) | **(66,053)** | (40,653) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **2,322,586** | **2,176,769** | **2,011,472** | **1,887,860** |

Disgwylir i £103.2m gael ei ryddhau o fewn 12 mis yn unol â'r tâl dibrisio ar yr asedau a ariennir gan grant – mae hyn wedi'i gynnwys fel rhwymedigaeth anghyfredol sy'n cyd-fynd â chyflwyno'r asedau anghyfredol cyfatebol.

# 18. Buddion i gyflogeion

## Polisi pensiynau cyfraniadau diffiniedig

Dyma gyfanswm y gost sy'n gysylltiedig â chynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio:

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm costau** | **2,996** | 2,615 | **2,860** | 2,445 |

## Cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio

Mae'r Grŵp yn gweithredu dwy ran o'r RPS. Mae'r cyntaf o fewn Trafnidiaeth Cymru yng nghyswllt staff sy'n trosglwyddo i TrC o Network Rail fel rhan o gaffael asedau CVL. Mae'r ail o fewn Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o ran staff sy'n trosglwyddo fel rhan o'r broses drosglwyddo OLR. Mae'r datganiadau ar gyfer pob un o'r adrannau hyn wedi'u nodi isod.

Mae'r cyfarwyddwyr yn credu y dylid rhoi ystyriaeth ar wahân i adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig o dan IAS 19 "Buddion gweithwyr" gan nad oes gan y cwmni unrhyw hawliau na rhwymedigaethau mewn perthynas â'r cynllun ar ôl i'r Cytundeb OLR ddod i ben. Er ei bod yn dal yn agored i newydd-ddyfodiaid a chroniadau yn y dyfodol, mae'r risgiau a achosir gan RPS Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn gyfyngedig oherwydd, o dan y Cytundeb OLR, nid yw'r cwmni'n gyfrifol am unrhyw ddiffyg gweddilliol ar ddiwedd y contract. O'r herwydd, dim ond risg llif arian tymor byr sydd yn y busnes.

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Atebolrwydd/(ased) Adran TrC | **(403)** | (202) | **(403)** | (202) |
| Atebolrwydd/(ased) Adran Rheilffyrdd TrC | **-** | - | **-** | - |
| **Cyfanswm costau** | **(403)** | (202) | **(403)** | (202) |

## Adran TrC

### Symudiad mewn rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net

| Disgrifiad | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio 2026 £000 | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio 2025 £000 | Gwerth teg asedau'r cynllun 2026 £000 | Gwerth teg asedau'r cynllun 2025 £000 | Atebolrwydd /(ased) buddion diffiniedig net 2026 £000 | Atebolrwydd /(ased) buddion diffiniedig net 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **4,216** | 4,584 | **(4,553)** | (4,492) | **(337)** | 92 |
| **Wedi'i gynnwys mewn elw neu golled** | | | | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **210** | 275 | **-** | - | **210** | 275 |
| Cost setliad | **-** | - | **-** | - | **-** | - |
| Costau gweinyddol | **-** | - | **19** | 19 | **19** | 19 |
| Cost llog/(incwm) | **239** | 218 | **(265)** | (220) | **(26)** | (2) |
| **Wedi'i gynnwys yn OCI** | | | | | | |
| Ailfesur y golled/(enillion): | | | | | | |
| Colled/(enillion) actwaraidd sy'n deillio o: | | | | | | |
| • Newid tybiaethau demograffeg | **27** | (10) | **-** | - | **27** | (10) |
| • Newid tybiaethau ariannol | **(182)** | (693) | **-** | - | **(182)** | (693) |
| • Addasu profiad | **17** | 9 | **-** | - | **17** | 9 |
| Enillion ar asedau'r cynllun ac eithrio incwm llog | **-** | - | **(152)** | 240 | **(152)** | 240 |
| **Arall** | | | | | | |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr | **-** | - | **(175)** | (189) | **(175)** | (189) |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr | **-** | - | **(72)** | (78) | **(72)** | (78) |
| Buddion a dalwyd | **(103)** | (167) | **103** | 167 | **-** | - |
| **Diffyg y cynllun** | **4,424** | 4,216 | **(5,095)** | (4,553) | **(671)** | (337) |
| Addasiad ar gyfer cyfran yr aelodau o asedau/rhwymedigaethau | **-** | - | **-** | - | **268** | 135 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **-** | - | **-** | - | **(403)** | (202) |

## Asedau'r cynllun

| Disgrifiad | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|
| Asedau twf | **4,519** | 4,028 |
| Bondiau | **404** | 292 |
| Asedau eraill | **172** | 233 |
| **Cyfanswm** | **5,095** | 4,553 |

## Rhagdybiaethau actwaraidd

Dyma'r prif dybiaethau actwaraidd ar y dyddiad adrodd (wedi eu mynegi fel cyfartaleddau pwysedig).

| Disgrifiad | 2026 | 2025 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt ar 31 Mawrth | **6.25%** | 5.75% |
| Chwyddiant prisiau | **3.35%** | 3.15% |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **3.35%** | 3.15% |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | **3.15%** | 2.90% |

Mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â hirhoedledd sy'n sail i rwymedigaethau'r pensiwn ar ddyddiad y fantolen yn seiliedig ar dablau marwolaethau actwaraidd safonol ac maen nhw'n cynnwys lwfans ar gyfer gwella hirhoedledd yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau'n cyfateb i ddisgwyl i rywun 65 oed fyw am nifer o flynyddoedd fel a ganlyn:

| Disgrifiad | 2026 blynyddoedd | 2025 blynyddoedd |
|---|---|---|
| Dyn 65 oed | **20.2** | 19.7 |
| Dyn sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **21.5** | 21.0 |
| Dynes sy'n 65 oed ar hyn o bryd | **22.4** | 22.1 |
| Dynes sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **23.8** | 23.6 |

### Dadansoddiad o sensitifrwydd

Mae cyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut byddai'r effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd wedi cynyddu (gostyngiad) o 0.25% yn sgil newid yn y tybiaethau perthnasol.

| Disgrifiad | 2026<br>£000 | 2025<br>£000 |
|---|---|---|
| Gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt | **178** | 175 |
| Cynnydd yn y gyfradd ddisgownt | **(167)** | (165) |
| Gostwng chwyddiant prisiau | **(170)** | (166) |
| Cynnydd mewn prisiau | **180** | 173 |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **30** | 30 |

Wrth brisio rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, gwnaed tybiaethau ynghylch marwoldeb fel y nodwyd uchod. Pe bai disgwyliad oes wedi cael ei newid i dybio bod holl aelodau'r gronfa'n byw am flwyddyn yn hwy, byddai gwerth y rhwymedigaethau a adroddwyd ar 31 Mawrth 2026 wedi cynyddu £124,000 (2025: cynnydd o £135,000).

Mae'r sensitifrwydd uchod yn seiliedig ar brisiad actwaraidd y cynllun a gynhaliwyd ar 31 Rhagfyr 2022. Er nad yw'r dadansoddiad yn ystyried dosbarthiad llawn y llifoedd arian a ddisgwylir o dan y cynllun, mae'n rhoi brasamcan o sensitifrwydd y tybiaethau a ddangosir.

### Cyllid

Mae Trafnidiaeth Cymru yn disgwyl talu £181,000 mewn cyfraniadau cyflogwr i'w gynllun buddion diffiniedig yn y flwyddyn a daw i ben ar 31 Mawrth 2027. Hyd cyfartalog pwysedig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw 17 mlynedd.

# Adran Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

## Symudiad mewn rhwymedigaeth/(ased) buddion diffiniedig net

| Disgrifiad | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio 2026 £000 | Rhwymedigaeth buddion wedi'u diffinio 2025 £000 | Gwerth teg asedau'r cynllun 2026 £000 | Gwerth teg asedau'r cynllun 2025 £000 | Atebolrwydd /(ased) buddion diffiniedig net 2026 £000 | Atebolrwydd /(ased) buddion diffiniedig net 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | **552,177** | 594,554 | **(543,149)** | (541,852) | **9,028** | 52,702 |
| **Wedi'i gynnwys mewn elw neu golled** | | | | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol | **20,374** | 22,657 | **-** | - | **20,374** | 22,657 |
| Addasiad masnachfraint i gost gwasanaeth | **(4,880)** | (8,921) | **-** | - | **(4,880)** | (8,921) |
| Costau gweinyddol | **-** | - | **442** | 757 | **442** | 757 |
| Cost llog/(incwm) | **18,650** | 17,023 | **(18,782)** | (15,823) | **(132)** | 1,200 |
| Llog ar addasu'r fasnachfraint | **132** | (1,197) | **-** | - | **132** | (1,197) |
| **Wedi'i gynnwys yn OCI** | | | | | | |
| Ailfesur y golled/(enillion): | | | | | | |
| Colled/(enillion) actwaraidd sy'n deillio o: | | | | | | |
| • Newid tybiaethau demograffeg | **3,797** | (939) | **-** | - | **3,797** | (939) |
| • Newid tybiaethau ariannol | **(24,605)** | (88,175) | **-** | - | **(24,605)** | (88,175) |
| • Addasu profiad | **22,664** | 26,740 | **-** | - | **22,664** | 26,740 |
| Enillion ar asedau'r cynllun ac eithrio incwm llog | **-** | - | **(24,777)** | 18,757 | **(24,777)** | 18,757 |
| **Arall** | | | | | | |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr | **-** | - | **(15,936)** | (14,553) | **(15,936)** | (14,553) |
| Cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr | **10,581** | 9,670 | **(10,581)** | (9,670) | **-** | - |
| Buddion a dalwyd | **(23,270)** | (19,235) | **23,270** | 19,235 | **-** | - |
| **Diffyg y cynllun** | **575,620** | 552,177 | **(589,513)** | (543,149) | **(13,893)** | 9,028 |
| Addasiad ar gyfer cyfran yr aelodau o asedau/ rhwymedigaethau | **-** | - | **-** | - | **5,557** | (3,611) |
| Addasiad masnachfraint rheilffyrdd | **-** | - | **-** | - | **8,336** | (5,417) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **-** | - | **-** | - | **-** | - |

## Asedau'r cynllun

| Disgrifiad | 2026<br>£000 | 2025<br>£000 |
|---|---|---|
| Ecwiti | **476,393** | 440,135 |
| Gwarannau sy'n dwyn llog | **107,359** | 97,783 |
| Seilwaith | **2** | 89 |
| Asedau eraill | **5,759** | 5,142 |
| **Cyfanswm** | **589,513** | 543,149 |

## Rhagdybiaethau actwaraidd

Dyma'r prif dybiaethau actwaraidd ar y dyddiad adrodd (wedi eu mynegi fel cyfartaleddau pwysedig).

| Disgrifiad | 2026 | 2025 |
|---|---|---|
| Cyfradd ddisgownt ar 31 Mawrth | **6.25%** | 5.75% |
| Chwyddiant prisiau | **3.15%** | 2.90% |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol | **3.35%** | 3.15% |
| Cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol | **3.15%** | 2.90% |

Mae'r tybiaethau sy'n ymwneud â hirhoedledd sy'n sail i rwymedigaethau'r pensiwn ar ddyddiad y fantolen yn seiliedig ar dablau marwolaethau actwaraidd safonol ac maen nhw'n cynnwys lwfans ar gyfer gwella hirhoedledd yn y dyfodol. Mae'r tybiaethau'n cyfateb i ddisgwyl i rywun 65 oed fyw am nifer o flynyddoedd fel a ganlyn:

| Disgrifiad | 2026<br>blynyddoedd | 2025<br>blynyddoedd |
|---|---|---|
| Dyn 65 oed | **20.2** | 19.7 |
| Dyn sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **21.6** | 21.1 |
| Dynes sy'n 65 oed ar hyn o bryd | **22.6** | 22.3 |
| Dynes sy'n 45 oed ar hyn o bryd | **24.1** | 23.8 |

## Dadansoddiad o sensitifrwydd

Mae cyfrifo'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sut byddai'r effaith ar y rhwymedigaeth buddion diffiniedig gros (cyn addasiadau aelod a masnachfraint) ar ddiwedd y cyfnod adrodd wedi cynyddu/(gostyngiad) o 1%, neu 0.5% yn sgil newid yn y tybiaethau perthnasol lle nodir hynny.

| Disgrifiad | 2026<br>£000 | 2025<br>£000 |
|---|---|---|
| Gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt | **101,775** | 100,398 |
| Cynnydd yn y gyfradd ddisgownt | **(79,746)** | (78,300) |
| Gostwng chwyddiant prisiau | **(80,473)** | (78,851) |
| Cynnydd mewn prisiau | **101,318** | 99,683 |
| Cynnydd cyflog yn y dyfodol (+0.5%) | **16,047** | 15,841 |

Wrth brisio rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, gwnaed tybiaethau ynghylch marwoldeb fel y nodwyd uchod. Pe bai disgwyliad oes wedi cael ei newid i dybio bod holl aelodau'r gronfa'n byw am flwyddyn yn hwy, byddai gwerth gros y rhwymedigaethau a adroddwyd cyn addasiadau aelodau a masnachfraint ar 31 Mawrth 2026 wedi cynyddu £14,045,000 (2025: cynnydd o £14,081,000).

Mae'r sensitifrwydd uchod yn seiliedig ar ganlyniadau'r prisiad actwaraidd llawn a gynhaliwyd gan dîm cynghori actwaraidd Ymddiriedolwyr RPS ar 31 Rhagfyr 2022.

## Cyllid

Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf yn disgwyl talu £16,983,000 mewn cyfraniadau cyflogwr i'w gynlluniau buddion diffiniedig yn y flwyddyn a daw i ben ar 31 Mawrth 2027. Hyd cyfartalog pwysedig y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw 17 mlynedd.

# 19. Offerynnau ariannol

## Gwerthoedd teg offerynnau ariannol

Nid oes unrhyw wahaniaethau rhwng gwerthoedd teg pob dosbarth o asedau ariannol a rhwymedigaeth ariannol a'u symiau cario yn y datganiad am y sefyllfa ariannol.

## Risg credyd

Nid yw TrC yn wynebu llawer o risg o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o'i weithgarwch yn cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru, a dderbynnir ymlaen llaw, a gweddill ei weithgarwch yn ymwneud â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Caiff risg credyd ei fonitro'n rheolaidd.

Mae swm cario'r symiau derbyniadwy drwy fasnach yn cynrychioli'r credyd mwyaf posibl. Felly, ar ddyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol, roedd y risg credyd mwyaf fel a ganlyn:

| Disgrifiad | 2026<br>£000 | 2025<br>£000 |
|---|---|---|
| Grŵp | **44,864** | 51,929 |
| Cwmni | **29,542** | 27,140 |

Nid oedd unrhyw symiau derbyniadwy sylweddol heb gael eu talu ar y dyddiad yr oeddynt yn ddyledus ar ddim un o'r dyddiadau adrodd.

Mae gan y grŵp ddarpariaeth colli credyd ddisgwyliedig o £20,000 mewn perthynas â dyledion penodol (2025: £0).

## Risg hylifedd

Mae TrC yn monitro ei gyfalaf gweithio'n rheolaidd i wneud yn siŵr bod digon o arian wedi cael ei dynnu i lawr o Lywodraeth Cymru ar gyfer ei rwymedigaethau pan fyddant yn ddyledus.

## Risg o ran pris tanwydd

Mae TrC yn defnyddio cronfa ymddiogelu llif arian i leihau amrywiadau mewn prisiau y gellir eu priodoli i ffynonellau tanwydd. Y risg sy'n cael ei hymddiogelu yw prisiau tanwydd yn newid a'r offerynnau ymddiogelu sy'n cael eu defnyddio yw tanwydd a gyfnewidir. Masnachir o bryd i'w gilydd a daw cynlluniau ymddiogelu presennol y Grŵp i ben rhwng 30 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2029.

Dangosir gwerth teg a'r newid yng ngwerth marchnadol cronfeydd ymddiogelu arian parod isod:

| Disgrifiad | 2026 £000 | 2025 £000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | | |
| Symiau derbyniadwy | **2** | 657 |
| Taliadau dyledus | **(3,577)** | (431) |
| **Cyfanswm** | **(3,575)** | 226 |
| Symudiad drwy Incwm cynhwysfawr arall | **8,781** | (3,813) |
| Symudiad drwy elw a cholled (aneffeithlonrwydd) | **-** | 12 |
| **Cyfanswm** | **8,781** | (3,801) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | | |
| Asedau ariannol anghyfredol | **952** | - |
| Symiau derbyniadwy | **4,366** | 2 |
| Taliadau dyledus | **(112)** | (3,577) |
| **Cyfanswm** | **5,206** | (3,575) |

# 20. Lesoedd

## 20 (a) Lesoedd fel lesydd

Mae gan TrC brydles i Amey Infrastructure Wales Limited o ran asedau CVL. Dechreuodd y brydles hon ar 28 Mawrth 2020. Mae hyn wedi cael ei ystyried yn brydles weithredol gan fod hyd y brydles gryn dipyn yn llai na bywyd economaidd defnyddiol yr asedau. Bydd y les yn dod i ben ym mis Chwefror 2028 (yn dilyn newid y cyfnod fel rhan o drawsnewid Gweithredwr y Dewis Olaf). Mae gan y Cwmni hefyd nifer fach o brydlesi eiddo eraill (e.e. consesiynau gorsafoedd).

Yn ystod y flwyddyn, cafodd £4,623,000 (2025: £3,688,000) ei gydnabod fel incwm rhent gan y Cwmni.

Mae gan y Grŵp hefyd brydlesi gyda nifer o gwmnïau mewn perthynas â chonsesiynau gorsafoedd a fflyd. Mae'r rhain wedi cael eu dosbarthu fel lesoedd gweithredol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd £2,017,000 (2025: £5,022,000) ei gydnabod fel incwm rhent o ran y prydlesi hyn.

## 20 (b) Lesoedd fel lesddeiliad

Mae gan y Cwmni bedair prydles eiddo – gan gynnwys y brydles ar ei brif swyddfa ym Mhontypridd, a ddechreuodd ym mis Hydref 2020 ac sy'n dod i ben yn 2035, yn ogystal â lesoedd eiddo sy'n para rhwng un a phum mlynedd ar gyfer eiddo yn Wrecsam, Penrhyndeudraeth a Ffynnon Taf. Mae gan y Cwmni ddwy brydles oes hir iawn ar gyfer Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd hefyd. Mae'r ddwy brydles yn brydlesi 990 mlynedd gyda rhent grawn pupur o £10 y flwyddyn.

Mae is-gwmni Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyf y Cwmni hefyd yn dal nifer o brydlesi cerbydau sy'n para naw mlynedd ar gyfartaledd a nifer o brydlesi eiddo ar gyfer depos a swyddfeydd.

Y gyfradd ddisgownt a gymhwysir i'r asedau hyn yw cyfradd fenthyca'r llywodraeth ar gyfer y flwyddyn galendr berthnasol (y gyfradd ddisgownt ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2026 yw 5.32% ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn 2025 a 4.81% ar gyfer prydlesi sy'n dechrau yn 2026).

Hefyd, mae gan y Grŵp nifer o brydlesi gwerth isel neu dymor byr o ran offer swyddfa.

### Asedau hawl i ddefnyddio

Cyflwynir asedau hawl i ddefnyddio sy'n gysylltiedig ag eiddo les fel eiddo, offer a chyfarpar:

## Grŵp

| Disgrifiad | Tir ac adeiladau 2026 £000 | Cerbydau 2026 £000 | Arall 2026 £000 | Cyfanswm 2026 £000 | Tir ac adeiladau 2025 £000 | Cerbydau 2025 £000 | Arall 2025 £000 | Cyfanswm 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | 35,742 | 488,399 | 500 | **524,641** | 15,562 | 398,046 | 465 | **414,073** |
| Ychwanegiadau/ diwygiadau | 314 | 98,405 | 107 | **98,826** | 22,102 | 148,607 | 222 | **170,931** |
| Tâl dibrisiant | (1,765) | (61,664) | (201) | **(63,630)** | (1,922) | (58,254) | (187) | **(60,363)** |
| Dad-gydnabod asedau hawl i ddefnyddio * | - | (27,648) | - | **(27,648)** | - | - | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 34,291 | 497,492 | 406 | **532,189** | 35,742 | 488,399 | 500 | **524,641** |

* Mae dad-gydnabod yr asedau hawl i ddefnyddio yn ganlyniad i derfynu nifer o lesoedd yn gynnar. Ar 1 Ebrill 2025, cafodd yr ased hawl i ddefnyddio (£27,648,000) a'r rhwymedigaeth les gysylltiedig (£28,484,000) eu dad-gydnabod, gan arwain at enillion o £836,000.

## Cwmni

| Disgrifiad | Tir ac adeiladau 2026 £000 | Cyfanswm 2026 £000 | Tir ac adeiladau 2025 £000 | Cyfanswm 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | 30,414 | **30,414** | 9,927 | **9,927** |
| Ychwanegiadau/diwygiadau | 891 | **891** | 21,717 | **21,717** |
| Tâl dibrisiant | (1,346) | **(1,346)** | (1,230) | **(1,230)** |
| **Balans ar 31 Mawrth** | 29,959 | **29,959** | 30,414 | **30,414** |

Mae'r rhan fwyaf o'r lesoedd newydd a diwygiedig yn ymwneud â cherbydau newydd yn Rheilffyrdd TrC, sy'n cael eu dibrisio dros oes y lesoedd.

## Symiau a gydnabyddir mewn elw neu golled

Mae'r symiau canlynol wedi cael eu cydnabod mewn elw neu golled y mae'r Grŵp yn brydlesai ar eu cyfer:

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 |
|---|---|---|
| Treuliau llog ar daliadau rhwymedigaethau les | **15,479** | 13,300 |
| (Enillion)/colledion ar ddad-gydnabod lesoedd | **(897)** | - |
| Treuliau sy'n ymwneud â lesoedd tymor byr (ac eithrio asedau gwerth isel) | **398** | 49 |
| Treuliau sy'n ymwneud â lesoedd asedau gwerth isel | **298** | 75 |
| **Cyfanswm** | **15,278** | 13,424 |

Ar 31 Mawrth 2026, roedd y Grŵp wedi ymrwymo i brydlesi tymor byr a gwerth isel gyda chyfanswm ymrwymiad gros o £81,000 (2025: £128,000) ac mae ganddo gytundebau i brydlesu gyda'r prydlesi sydd heb ddechrau eto, a chyfanswm taliadau yn y dyfodol o £7,457,000 (2025: £40,639,000) ac mae'r cyfan yn ymwneud â lesoedd cerbydau yn y dyfodol. Ar 31 Mawrth 2026, roedd y Grŵp wedi ymrwymo i brydlesi tymor byr a gwerth isel gyda chyfanswm ymrwymiad gros o £10,000 (2025: £1,000) a heb gytundebau (2025: dim cytundebau) i brydlesu gyda'r prydlesi heb ddechrau eto.

## Rhwymedigaethau lesoedd

Nodir isod symiau cario ymlaen rhwymedigaethau lesoedd a'r symudiadau yn ystod y cyfnod:

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar 1 Ebrill** | **520,597** | 436,417 | **10,613** | 11626 |
| Ychwanegiadau | **87,182** | 135,595 | **891** | (15) |
| Dad-gydnabod rhwymedigaethau lesoedd | **(28,484)** | - | **-** | - |
| Llog cronedig | **15,479** | 13,300 | **149** | 145 |
| Taliadau | **(73,090)** | (64,715) | **(1,359)** | (1,143) |
| **Ar 31 Mawrth** | **521,684** | 520,597 | **10,294** | 10,613 |
| Cyfran gyfredol rhwymedigaethau les | **54,269** | 61,178 | **1,302** | 1,017 |
| Cyfran anghyfredol o rwymedigaethau lesoedd | **467,415** | 459,419 | **8,991** | 9,596 |
| **Cyfanswm** | **521,684** | 520,597 | **10,293** | 10,613 |

## Atebolrwydd wedi'i rannu yn ôl math o ased

| Disgrifiad | Grŵp 2026 £000 | Grŵp 2025 £000 | Cwmni 2026 £000 | Cwmni 2025 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Tir ac adeiladau | **14,512** | 16,023 | **10,293** | 10,613 |
| Cerbydau | **506,800** | 504,109 | **-** | - |
| Arall | **372** | 465 | **-** | - |
| **Cyfanswm** | **521,684** | 520,597 | **10,293** | 10,613 |

# 21. Ymrwymiadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2026, ymrwymodd y Grŵp i gontractau i brynu eiddo, offer a chyfarpar am £106,547,000 (2025: £141,380,000). Ar yr un dyddiad, roedd ymrwymiadau cyfalaf Trafnidiaeth Cymru fel cwmni annibynnol yn £90,865,000 (2025: £142,554,000).

# 22. Partïon cysylltiedig

## Manylion partïon cysylltiedig y mae TrC wedi delio â nhw

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd TrC a'i is-gwmni Rheilffyrdd TrC Cyfyngedig grant refeniw a les/taliadau arian cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru, sef £489,721,000 (2025: £422,381,000) yn ogystal â grantiau refeniw i'w talu i awdurdodau lleol o £6,428,000 (2025: £5,569,000). Yn ogystal â hyn, derbyniodd Grŵp TrC arian grant cyfalaf ac arian cymhorthdal o £270,532,000 (2025: £276,628,000) yn ogystal â grantiau cyfalaf i'w talu i awdurdodau lleol a thrydydd partïon eraill o £47,491,000 (2025: £42,634,000).

Mae balans sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chyllid grant refeniw a les a dderbyniwyd wedi'i gynnwys fel credydwyr ar 31 Mawrth 2026, ond nid yw'r cyllid wedi dod i law eto, sef £13,340,000 (2025: £2,190,000) a chredydwr tebyg ar gyfer cyllid grant cyfalaf o £5,885,000 (2025: £9,128,000). Mae hefyd balansau dyledwyr gyda Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â grantiau a chymorthdaliadau i'w talu i awdurdodau lleol a thrydydd partïon eraill, sy'n cynnwys refeniw £2,688,000 (2025: £1,612,000) a chyfalaf £22,814,000 (2025: £28,747,000).

Ar ben hynny, roedd TrC yn cydnabod incwm gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys Cadw, is-adran o Lywodraeth Cymru) yn ymwneud ag ymgynghori nad oedd yn cael ei ariannu gan grant a phrosiectau eraill o £7,077,000 (2025: £12,665,000). Ar 31 Mawrth 2026, roedd TrC yn ddyledus o £3,320,000 (2025: £2,963,000) ar gyfer gwasanaethau a anfonebwyd i Lywodraeth Cymru, ac roedd wedi cronni incwm ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru ond nad oeddent wedi cael eu hanfonebu eto, sef £100 (2025: £3,000).

Mae TrC wedi gwneud pryniannau gan Lywodraeth Cymru, a'r cyfanswm ar gyfer hynny oedd £22,000 (2025: £152,000) mewn perthynas â gwasanaethau yr ailgodir tâl amdanynt (costau secondai a thrwyddedau mynediad yn bennaf). Mae ganddo falans symiau taladwy sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2026 o £dim (2025: £120,000).

Mae gan y Grŵp ddau fenthyciad gyda Llywodraeth Cymru hefyd – benthyciad cyfalaf gweithio i TrC a benthyciad cyllid pellach gyda Ffeibr TrC. Ar 31 Mawrth 2026, y balans gyda TrC yw £900,000 ynghyd â llog cronedig o £242,000 (2025: £6,900,000) a'r balans gyda Ffeibr TrC oedd £7,700,000 (2025: £7,700,000). Roedd y llog a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn yn £242,000 (2025: £390,000) ar fenthyciad TrC a £525,000 (2025: £17,000) ar fenthyciad Ffeibr TrC.

Mae TrC yn masnachu â chwmnïau sydd hefyd yn eiddo i Weinidogion Cymru. Roedd TrC yn cydnabod refeniw o £130,000 (2025: £176,000) ac roedd ganddo falans dyledwr o £dim ar 31 Mawrth 2026 (2025: £19,000) gyda GCRE Ltd a refeniw cydnabyddedig o £17,000 gyda Chwmni Egino Cyf. Roedd TrC hefyd wedi gwneud pryniannau gwerth £13,000 gan DCFW Ltd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

Mae gan is-gwmni'r Cwmni, Gwasanaethau Arloesi Cyfyngedig TrC, gyfranddaliwr budd lleiafrifol, ac o'r herwydd, mae angen datgeliadau partïon cysylltiedig ar gyfer y rhiant-gwmni yn unol ag FRS 101. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth TrC bryniannau o £dim gan Wasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig (2025: £222,000) a gwnaeth Rheilffyrdd TrC bryniannau gwerth £84,000 gan Wasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig (2025: £dim). Mae yna ddyledwyr masnach ac incwm cronedig yn ddyledus i Wasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig gan TrC ar 31 Mawrth 2026, sef £85 (2025: £21,000) yn ogystal â benthyciad cyfalaf gweithio gan TrC i Wasanaethau Arloesi TrC Cyfyngedig o £100,000 (2025: £100,000).

## Trafodion gyda'r prif bersonél rheoli

Tybir bod y prif bersonél rheoli yn cynnwys cyfarwyddwyr statudol y Cwmni (y dangosir eu taliadau cydnabyddiaeth yn nodyn 4) ac aelodau eraill o'r tîm gweithredol. Mae'r iawndal a roddwyd I'r prif bersonel rheoli fel a ganlyn:

| Disgrifiad | 2026<br>£000 | 2025<br>£000 |
|---|---|---|
| Taliadau'r prif reolwyr yn cynnwys costau nawdd cymdeithasol | **2,453** | 2,091 |
| Cyfraniadau'r cwmni at gynlluniau pensiwn prynu arian | **121** | 103 |
| Taliadau i drydydd partïon yng nghyswllt secondeion | **118** | - |
| **Cyfanswm** | **2,692** | 2,194 |

# 23. Colledion a thaliadau arbennig

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfanswm a dalwyd dros y terfynau a ragnodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru o £300,000.

| Disgrifiad | 2026 | 2025 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion a thaliadau arbennig | **94** | 151 |
| Cyfanswm gwerth colledion a thaliadau arbennig (£000oedd) | **3,934** | 579 |

## Colledion unigol o £300,000 neu fwy

Ar 31 Mawrth 2025, roedd gan TrC £2.7m mewn asedau a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu a oedd yn ymwneud â chostau dylunio ac arolygu'r bont droed, y maes parcio a theithio a lleoliad y llinell brofi yn Llan-wern. Yn dilyn Adolygiad o Wariant y DU 2025, mae gennym bellach fwy o eglurder ynghylch y gofynion dylunio a darparu'r gorsafoedd yn y dyfodol rhwng Cyffordd Twnnel Hafren a Chaerdydd Canolog a argymhellwyd gan yr Arglwydd Burns a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru. Felly, mae penderfyniad darbodus wedi cael ei wneud i amharu ar y cydbwysedd yn ystod 2025/26. Mae'r amhariad hwn hefyd yn cael ei ystyried yn golled adeiladol o dan y diffiniadau a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

# 24. Prif riant-gwmni a rhiant-gwmni grŵp mwy

Mae TrC yn is-gorff sy'n dod o dan ofal Gweinidogion Cymru, a ystyrir hefyd yn brif riant-endid. Mae canlyniadau TrC wedi'u cynnwys yng nghyfrifon blynyddol cyfunol Llywodraeth Cymru, sydd ar gael o'r cyfeiriad cofrestredig, sef Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar y wefan yn: https://gov.wales/welsh-government-consolidated-annual-accounts.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES